



## Rheoleiddio cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol

---

Ymgynghoriad ar ein  
rheoliadau, ein safonau a'n  
canllawiau arfaethedig

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ymdrin â'n hegwyddorion wrth wneud penderfyniadau ynghylch addasrwydd i ymarfer a fydd yn berthnasol i feddygon, cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.

# Rheoleiddio cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol: ymgynghoriad ar ein rheoliadau, ein safonau a'n canllawiau arfaethedig.

(Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ymdrin â'n hegwyddorion wrth wneud penderfyniadau ynghylch addasrwydd i ymarfer a fydd yn berthnasol i feddygon, cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol)

## Rhan 1 – Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2019, gofynnodd Llywodraeth y DU i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol reoleiddio dau grŵp proffesiynol ychwanegol, cymdeithion anesthesia (AAs) a chymdeithion meddygol (PAs).

Mae'r Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol (AAPAO neu 'y Gorchymyn'), a ddrafftwyd gan y Llywodraeth ac a gyflwynwyd i'r Senedd ar 13 Rhagfyr 2023 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio'r ddau broffesiwn hyn. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi nodi ein dull gweithredu arfaethedig er mwyn rhoi gofynion y Gorchymyn ar waith drwy gyfuniad o reolau, canllawiau a safonau.

- Mae'r rheolau'n disgrifio'r prosesau a'r gweithdrefnau a fydd yn cyflawni'r dyletswyddau a'r pwerau deddfwriaethol a nodir yn y Gorchymyn.
- Mae'r canllawiau'n cefnogi'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau teg, cymesur a thryloyw o fewn y prosesau a'r gweithdrefnau hynny.
- Mae'r safonau'n nodi'r gwerthoedd proffesiynol, yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad rydyn ni'n disgwyl i'r rheini rydyn ni'n eu rheoleiddio eu cael, eu darparu neu eu dangos o dan ein fframwaith.

Gyda'i gilydd, bydd ein rheolau, ein canllawiau a'n safonau'n sefydlu fframwaith rheoleiddio effeithiol ac effeithlon ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol a fydd o fudd i gleifion ac unigolion cofrestredig fel ei gilydd.

---

## Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Ni yw'r sefydliad annibynnol sy'n rheoleiddio meddygon yn y DU. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda meddygon, eu cyflogwyr, eu haddysgwyr ac eraill i wneud y canlynol:

- gosod y safonau gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol y mae angen i feddygon eu bodloni
- sicrhau bod meddygon yn cael yr addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal da a diogel i gleifion
- cadarnhau pwy sy'n gymwys i weithio fel meddyg yn y DU, a gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i fodloni'r safonau proffesiynol a osodwyd gennym drwy gydol eu gyrfaedd
- rhoi arweiniad a chynghor i helpu meddygon i ddeall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt
- ymchwilio i bryderon os yw'n bosibl bod perygl i ddiogelwch cleifion, neu os yw hyder y cyhoedd mewn meddygon yn is na'r disgwyl, a chymryd camau gweithredu lle bo angen.

O 2024 ymlaen, bydd ein rôl yn ehangu i gynnwys y gwaith o reoleiddio Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'cymdeithion' yn y ddogfen ymgynghori hon) – a byddwn hefyd yn ymgymryd â'r swyddogaethau hyn ar eu cyfer.

## Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn ymgynghori ar y rheolau a'r safonau drafft sy'n ofynnol i weithredu'r dyletswyddau a'r pwerau cyfreithiol yn y Gorchymyn, a dechrau rheoleiddio cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn statudol yn nes ymlaen eleni.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar egwyddorion y polisi addasrwydd i ymarfer a fydd yn sail i gynnwys canllawiau a fydd yn rheoli ein gwaith o reoleiddio cymdeithion anesthesia, cymdeithion meddygol a meddygon (ac mae cwestiynau am y rhain yn Rhan 5 – Addasrwydd i Ymarfer). Rydym yn cynnig cyflwyno canllawiau newydd a chanllawiau wedi'u diweddarau i feddygon yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn ar yr un pryd â chyflwyno canllawiau ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, fel y gallant hwythau hefyd elwa o'r fframwaith gwneud penderfyniadau symlach, cliriach a mwy hygyrch y bydd ein canllawiau'n ei ddarparu.

Rydym wedi grwpio ein rheolau, ein safonau a'n canllawiau yn ôl swyddogaeth reoleiddio, yn y drefn y mae cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn debygol o ddod ar eu traws drwy gydol eu gyrfa. Dyma beth yw'r swyddogaethau hyn:

### **Addysg a hyfforddiant i Gymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol – yn cynnwys:**

- y deilliannau y mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio i fod yn gymdeithion eu cyflawni i gael cymhwyster cymeradwy fel cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol
- y safonau y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg a hyfforddiant eu cyflawni er mwyn dyfarnu'r cymwysterau hynny
- ein prosesau ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir.

---

(Cwestiynau 1-5)

**Ffurio a chadw'r gofrestr o gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol – sy'n cynnwys y canlynol:**

- gwybodaeth y mae'n rhaid ei chofnodi ar y gofrestr ar gyfer pob cydymaith anesthesia a chydymaith meddygol
- ein cyfrifoldeb dros gofnodi, diwygio a chynnal cofnodion y gofrestr.

(Cwestiwn 6)

**Ymuno ac ailymuno â'r gofrestr o gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol – sy'n cynnwys y canlynol:**

- y gofynion y mae'n rhaid i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol eu bodloni i gofrestru gyda ni a'r broses ar gyfer gwneud hynny
- y gofynion y mae'n rhaid i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol eu bodloni i ailymuno â'r gofrestr os dilewyd eu henwau oddi arni neu os ydynt yn tynnu eu henwau eu hunain oddi ar y gofrestr, a'r broses ar gyfer gwneud hynny.

(Cwestiynau 7-8)

**Dileu enwau cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol oddi ar y gofrestr – sy'n cynnwys y canlynol:**

- y prosesau ar gyfer dileu enwau cymdeithion anesthesia neu gymdeithion meddygol oddi ar y gofrestr.

(Cwestiynau 9-11)

**Delio â phryderon am gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol (achosion addasrwydd i ymarfer) – sy'n cynnwys y canlynol:**

- ein prosesau ar gyfer asesu pryder, ymchwilio iddo, a dyfarnu arno
- ein proses ar gyfer cymryd camau gweithredu oherwydd pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer drwy gyhoeddi rhybudd neu osod mesur (cyfyngiad) ar gofrestriad cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol; a'n proses ar gyfer adolygu mesurau addasrwydd i ymarfer
- egwyddorion polisi i lywio canllawiau ar sut byddwn yn gwneud penderfyniadau pan godir pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer (a fydd yn berthnasol i gymdeithion anesthesia, cymdeithion meddygol a meddygon).

(Cwestiynau 12-20)

---

### **Newid a herio ein penderfyniadau – sy'n cynnwys y canlynol:**

- ein proses ar gyfer adolygu penderfyniadau penodol y GMC
- y broses ar gyfer apeliadau mewnol yn erbyn penderfyniadau'r GMC.

(Cwestiynau 21-22)

### **Ffioedd – sy'n trafod y canlynol:**

- ein dull o godi ffioedd am ein swyddogaethau.

(Cwestiynau 23-24)

Tua diwedd y ddogfen ymgynghori, rydym hefyd yn gofyn cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae ein cynigion yn bodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r safonau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Rydym eisiau clywed amrywiaeth o safbwyntiau cyn i ni lunio ein rheolau, ein safonau a'n hegwyddorion polisi terfynol i lywio cynnwys y canllawiau, felly rydyn ni'n annog ymatebwyr i ateb cynifer o gwestiynau â phosibl.

## **Beth nad yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag ef**

Yn 2017, ymgynghorodd y Llywodraeth ynghylch a ddylid cynnwys cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol mewn rheoliadau statudol ac, os felly, pwy ddylai'r rheoleiddiwr fod. Canlyniad clir yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd y dylid eu rheoleiddio.

Yn 2019, gofynnodd y Llywodraeth i'r GMC reoleiddio'r ddau broffesiwn a chyflwynwyd y ddeddfwriaeth i alluogi hyn i ddigwydd (y Gorchymyn) i'r Seneddau ym mis Rhagfyr 2023 ac mae bellach yn gyfraith.

Felly, nid ydym yn ymgynghori ar y canlynol:

- a ddylid cynnwys cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol o dan reoleiddiad statudol, neu ai'r GMC a ddylai eu rheoleiddio – mae Llywodraeth y DU, gyda chefnogaeth Llywodraeth yr Alban, eisoes wedi gwneud y penderfyniadau hynny
- cynnwys y Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol, sy'n cynnwys y teitlau proffesiynol 'cydymaith anesthesia' a 'cydymaith meddygol' – mae hyn eisoes wedi'i gyflwyno i'r Seneddau

- cwmpas ymarfer Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol – nid rôl y rheoleidiwr yw penderfynu pa dasgau y mae'n ddiogel i weithwyr proffesiynol unigol eu cyflawni ar ôl iddynt gofrestru gyda ni, oherwydd mae hynny'n dibynnu ar eu sgiliau a'u cymhwysedd unigol, sy'n datblygu dros amser. Ni fyddwn yn pennu cwmpas ymarfer ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol y tu hwnt i gymwyseddau cychwynol y cymwysterau, yn union fel nad ydym yn ei bennu ar gyfer meddygon. Gwyddom fod arweinyddiaeth y GIG, cyrff cyflogwyr a cholegau brenhinol wedi dechrau edrych ar sut y gallai cwmpas ymarfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol ddatblygu dros amser. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hynny ac yn annog proffesiynau'r cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol i gymryd rhan ynddynt hefyd.

## Cyflwyniad i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol

Mae cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn gweithio gyda meddygon. Mae pob un yn perthyn i grŵp proffesiynol a ddiffinnir ac mae ganddynt setiau o sgiliau sydd o fudd i feddygon.

Mae Cymdeithion Meddygol yn gweithio o dan oruchwyliaeth meddygon ar draws ystod o arbenigeddau, mewn ysbytai ac mewn practis cyffredinol; nodi hanes, archwilio, rhoi diagnosis, rheoli, a thrin cleifion. Maent hefyd yn rhan o'r tîm aml-ddisgyblaethol, sy'n cynnwys gwahanol broffesiynau gofal iechyd yn cydweithio i wneud penderfyniadau ynghylch trin cleifion. Ar hyn o bryd mae tua 4,000 o gymdeithion meddygol ac 1,800 o fyfyrwyr ar gofrestr wirfoddol y Gyfadran Cymdeithion Meddygol (FPA).

Mae Cymdeithion Anesthesia yn gweithio yn y tîm anesthetig ac yn cefnogi darparaeth anesthesia cyffredinol a gofal critigol. Maent yn cynnal asesiadau ac ymyriadau cyn ac ar ôl llawdriniaethau o dan oruchwyliaeth anesthetydd ymgynghorol neu anesthetydd arall sy'n ymarfer yn annibynnol, ac yn gweithio fel rhan o dîm anesthetig. Ar hyn o bryd, mae tua 180 o Gymdeithion Anaesthetig yn ymarfer ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol yn darparu adnodd clinigol ychwanegol y mae mawr ei angen i weithlu meddygol y DU – gan helpu i wella gofal cleifion i bawb.

## Manteision rheoleiddio

Er mai nifer cymharol fach o gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol sydd yna ar hyn o bryd, disgwylir cynydd yn eu niferoedd dros y blynyddoedd nesaf. Mae hyn yn unol â'r uchelgais a nodir yn y cynllun gweithlu tymor hir yn Lloegr, ac yn unol â'r ymrwymiad i'w ehangu'n raddol, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn yr Alban. Ar hyn o bryd mae 37 o gyrsiau cymdeithion meddygol a thri chwrs i gymdeithion anesthesia yn y DU, a ddarperir ar draws 38 o sefydliadau addysg uwch.

Mater gweithlu yw graddfa a chyflymder yr ehangu yn rolau cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol ac nid yw'n fater i'r GMC nac i'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ehangu disgwylidig, mae'n bwysig cynnwys cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol mewn rheoliadau statudol cyn gynted â phosibl.

---

Bydd rheoleiddio yn helpu i sicrhau cleifion, cydweithwyr a chyflogwyr bod cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn cael addysg a chymhwysterau priodol, eu bod yn gallu cyfrannu'n ddiogel ac yn briodol at ofal cleifion ac y gellir eu dwyn i gyfrif os codir pryderon difrifol. Dyma bwrpas sylfaenol rheoleiddio, ar gyfer meddygon, ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a hefyd ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn y dyfodol.

Wrth i nifer y cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol sy'n gweithio yn y system gofal iechyd gynyddu, rydym yn cydnabod bod cwestiynau ehangach yn cael eu gofyn am eu rôl a'u lle yn y tîm gofal iechyd. Nid yw llawer o'r cwestiynau hyn yn ymwneud yn sylfaenol â rheoleiddio ac maent yn fater i eraill fynd i'r afael â nhw, er ein bod yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau perthnasol i lywio trafodaethau lle mae croestoriad rhyngddynt â'n rôl reoleiddio.

## Beth fydd cynnwys y fframwaith rheoleiddio ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol

Byddwn yn rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia mewn ffordd debyg i'r modd rydym yn rheoleiddio meddygon. O'r herwydd, bydd y Gorchymyn yn ein galluogi i wneud y canlynol:

- sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio i fod yn gymdeithion anesthesia ac yn gymdeithion meddygol
- sefydlu cofrestr ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol
- sefydlu prosesau ar gyfer rhoi cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol ar y gofrestr a dileu eu henwau oddi arni
- gosod safonau proffesiynol ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol
- sefydlu prosesau i asesu a yw cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn parhau i fodloni'r safonau a osodwn
- sefydlu prosesau ar gyfer ymchwilio i bryderon am gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, a chymryd camau pan fyddwn o'r farn bod risg i ddiogelwch y cyhoedd.

Fodd bynnag, er y bydd y swyddogaethau rheoleiddio'n debyg i'r rhai ar gyfer meddygon, bydd y Gorchymyn yn ein galluogi i reoleiddio mewn ffordd fwy hyblyg, ymatebol ac effeithlon nag sy'n bosibl ar hyn o bryd o dan Ddeddf Feddygol 1983 (fel y'i diwygiwyd)\* ar gyfer meddygon.

---

\* Cyfeirir hefyd yn y ddogfen ymgynghori hon at Ddeddf Feddygol 1983 fel 'y Ddeddf Feddygol'.

---

## Diwygio rheoleiddio i bawb

Fel rhan o'i symudiad i ymestyn rheoleiddio statudol i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo hefyd i gyflwyno diwygiadau ehangach i reoleiddio'r proffesiynau gofal iechyd presennol. Seilir y diwygiadau ehangach hyn ar y fframwaith deddfwriaethol a grëwyd ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.

Rydym wedi galw ers tro am ddiwygio trefnau rheoleiddio proffesiynol yn ehangach. Nid yw'r cyfreithiau sy'n rheoli'r ffordd rydym yn rheoleiddio meddygon wedi cyd-fynd â'r newid yn anghenion y systemau gofal iechyd y mae'r proffesiynau'n gweithio ynddynt, a disgwyliadau cymdeithas o ran rheoleiddio modern. Mae rhywfaint o'n deddfwriaeth yn deillio o'r 19eg ganrif. Ac, er ei fod wedi cael ei ddiweddarau ar wahanol adegau, canlyniad hyn yw fframwaith rheoleiddio sy'n gymhleth, yn rhy ragnodol, ac yn araf wrth addasu i newid.

Wrth i weithwyr gofal iechyd proffesiynol unigol weithio gyda'i gilydd fwyfwy fel rhan o dimau amlddisgyblaethol ehangach, mae'r gwahaniaethau a'r datgysylltu rhwng y ffordd y rheoleiddir pob proffesiwn wedi dod yn amlwg iawn. Mae'r diffyg cysondeb a'r diffyg cydlyniad hwn wedi rhwystro ymdrechion rheoleiddwyr i ddiogelu'r cyhoedd a chefnogi'r rheini rydym yn eu rheoleiddio i ddarparu gofal gwych.

Felly, mae cyflwyno fframwaith rheoleiddio modern newydd ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn gam cyntaf hollbwysig tuag at ddiwygio'r holl broffesiynau gofal iechyd yn ehangach, sy'n cael ei alluogi gan fwy o gysondeb deddfwriaethol rhwng y gwahanol reoleiddwyr.

Mae'r darpariaethau a nodir yn y Gorchymyn yn darparu sylfaen i'n helpu i sicrhau manteision gwirioneddol i gleifion, cymdeithion, cyflogwyr, darparwyr, addysgwyr, a hyfforddwyr. Ymhen amser, byddant hefyd yn mynd i'r afael â llawer o'n pryderon hirsefydlog am y gofynion cyfreithiol cymhleth a rhy ragnodol sydd wedi rheoli ein gwaith o reoleiddio meddygon.

## Diben ein hymgyngoriad

Mae dau bwrpas i'r ymgynghoriad hwn.

Yn gyntaf, rydym yn gofyn am farn ar ein dull arfaethedig o reoleiddio cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, drwy wahodd sylwadau ar ein rheolau drafft – a, lle bo'n briodol, safonau a chanllawiau ategol.

Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu y bydd y Gorchymyn yn gweithredu fel sail ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer meddygon a phroffesiynau gofal iechyd eraill. Er y cyflwynir deddfwriaeth ar wahân i alluogi hyn, rydym yn rhagweld mai'r Gorchymyn fydd y sail ar gyfer y swyddogaethau statudol, y pwerau cyfreithiol a'r dyletswyddau ar gyfer meddygon – gyda darpariaethau ychwanegol sy'n benodol i'r proffesiwn hwn lle bo hynny'n briodol.

Am y rheswm hwn, rydym yn disgwyl y bydd y rheolau a'r canllawiau ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn yn debyg yn fras i'r rhai a gyflwynir i feddygon ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd. Er enghraifft, rhagwelwn y bydd y ddeddfwriaeth yn cyflwyno canlyniadau a dderbynnir, fel y disgrifir yn rhan 5 y ddogfen hon, ar gyfer meddygon fel rhan o achosion addasrwydd i ymarfer. Byddwn yn ymgynghori ar wahân ar y

---

rheolau a'r newidiadau arfaethedig i'r canllawiau i feddygon maes o law. Fodd bynnag, rydym nawr yn croesawu barn gychwynnol gan feddygon ar eglurder, tegwch a chymesuredd ein cynigion ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Yn ei dro, bydd hyn yn dylanwadu ar ein gwaith o ddatblygu rheolau ar gyfer meddygon yn y dyfodol.

Yn ail, rydym hefyd yn gofyn am sylwadau ar ein hegwyddorion polisi arfaethedig i lywio cynnwys y canllawiau gwneud penderfyniadau, y byddwn yn eu cyflwyno ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, ac ar gyfer meddygon ar yr un pryd. Bydd un o'r canllawiau hyn yn disodli fersiwn bresennol ein [Canllawiau ar sancsiynau ar gyfer aelodau o Dribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer meddygon.](#)

## Ymgynghoriadau cysylltiedig yn y dyfodol

Y rheolau rydym yn ymgynghori yn eu cylch yma yw'r rhai y mae angen i ni eu cael ar gyfer dechrau rheoleiddio cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.

Yn nes ymlaen, byddwn yn ymgynghori ar reolau ychwanegol ar gyfer y meysydd hynny o'r Gorchymyn nad ydynt yn cael sylw yma ac nad oes eu hangen ar gyfer dechrau rheoleiddio cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Bydd y rhain yn cynnwys rheolau sy'n ymwneud â'n model ail-ddilysu arfaethedig ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.

Byddwn hefyd yn ymgynghori ar y rheolau sy'n ofynnol i roi fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar waith ar gyfer meddygon – ar ôl i'r llywodraeth gyflwyno'r ddeddfwriaeth berthnasol. Rydym yn disgwyl y bydd y llywodraeth yn ymgynghori ar ddeddfwriaeth gyfatebol ar gyfer y proffesiwn meddygol ac yn ei chyflwyno cyn gynted a bo modd.

## Pwy ddylai ymateb i'n hymgyngoriad

Rydym yn croesawu ymatebion gan gymdeithion anesthesia, cymdeithion meddygol, myfyrwyr sy'n astudio i fod yn gymdeithion, meddygon, y cyhoedd, grwpiau sy'n cynrychioli cleifion, ac unrhyw unigolion neu sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ein prosesau sy'n llywodraethu rheoleiddio cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, neu'n eu defnyddio.

Er mwyn helpu unigolion i ymateb i gwestiynau ein hymgyngoriad, rydym wedi gwneud y canlynol:

- creu rhestr o dermau allweddol yn Atodiad A
- tynnu sylw at sut mae cynigion ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn cymharu â'n dulliau rheoleiddio presennol ar gyfer meddygon a myfyrwyr meddygaeth.

Rydym hefyd yn croesawu barn meddygon, cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol ar egwyddorion ein polisi addasrwydd i ymarfer, a fydd yn sail i gynnwys ein canllawiau gwneud penderfyniadau.

Byddwn yn cyflwyno canllawiau newydd i feddygon ar yr un pryd ag y byddwn yn eu cyflwyno ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol (gweler Rhan 5 am ragor o fanylion).

---

## Sut ydw i'n cymryd rhan?

Mae sawl ffordd y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad.

- Gallwch lenwi ein harolwg ar-lein sydd ar gael [yma](#) neu gallwch anfon e-bost atom gyda'ch ymateb i [AAPAconsultation@gmc-uk.org](mailto:AAPAconsultation@gmc-uk.org)
- Fel arall, gallwch anfon ymatebion wedi'u hargraffu at AAPA Consultation, Regulation Policy Team, General Medical Council, Regents Place, 350 Euston Road, London NW1 3JN
- Os oes angen y ddogfen ymgynghori arnoch mewn ieithoedd eraill, neu mewn fformat arall, anfonwch e-bost atom i [gmc@gmc-uk.org](mailto:gmc@gmc-uk.org)

Daw'r ymgynghoriad i ben am 23:59 ar **20 Mai 2024**.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r canlyniadau, gan ystyried faint sy'n cytuno â'n cynigion a'r rhesymeg ategol a ddarparwyd gan ymatebwyr. Byddwn hefyd yn defnyddio canlyniadau ymchwil a gomisiynwyd ar wahân a fydd yn casglu barn aelodau o'r cyhoedd am ein cynigion.

Byddwn wedyn yn cyhoeddi adroddiad gyda chasgliadau'r ymgynghoriad a chrynodeb o unrhyw newidiadau i'n rheolau, ein safonau a'n canllawiau yn sgil yr adborth a gafwyd.

Yna bydd angen i'n Cyngor llywodraethu gymeradwyo'r rheolau diwygiedig unwaith y daw'r Gorchymyn i rym ac y bydd rheoleiddio statudol yn dechrau ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Rhagwelwn y bydd hyn yn dechrau ddiwedd 2024.

---

## Rhan 2 – Addysg a hyfforddiant

### Addysg a hyfforddiant

Bydd gennym y rôl ganlynol mewn addysg a hyfforddiant ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol:

- pennu'r deilliannau dysgu, sy'n sefydlu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad y mae'n rhaid i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol eu bodloni er mwyn cymhwyso
- gosod y safonau ar gyfer pob cwricwlwm cydymaith anesthesia a chydymaith meddygol
- cymeradwyo pob cwricwlwm ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol
- gosod y safonau y mae'n rhaid i ddarparwyr cyrsiau eu bodloni er mwyn darparu cyrsiau cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol a dyfarnu cymwysterau ar eu cyfer
- cymeradwyo cyrsiau cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol
- cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd i sicrhau bod sefydliadau addysg yn cyrraedd y safonau rydym yn eu gosod.

### Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn ymgynghori yng nghylch y canlynol:

- dwy set o [safonau](#) addysg a hyfforddiant drafft
- y [rheolau](#) a fydd yn llywodraethu ein prosesau ar gyfer rheoleiddio addysg a hyfforddiant cyn-gymhwyso i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.

Rydym yn croesawu sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein rheolau a'n safonau arfaethedig, yn enwedig sylwadau ar y canlynol:

- cynnwys arfaethedig ein safonau addysg a hyfforddiant
- ein dull arfaethedig o gymeradwyo a sicrhau ansawdd pob cwricwlwm cydymaith anesthesia a chydymaith meddygol, a chysiau ar eu cyfer
- i ba raddau y mae ein rheolau'n sefydlu prosesau clir, cymesur a theg ar gyfer rheoleiddio addysg a hyfforddiant cyn-gymhwyso i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.

Cyn adolygu ein rheolau a'n safonau arfaethedig, sydd i'w gweld drwy glicio ar y dolenni uchod, rydym yn eich annog i ddarllen Rhan 2 y ddogfen ymgynghori yn gyntaf, sy'n rhoi rhagor o fanylion am bwrpas a chwmpas y dogfennau hyn.

---

## Beth mae ein safonau yn eu cynnwys

Rydym yn disgwyl i'r addysg a'r hyfforddiant a ddarperir i fyfyrwyr sy'n astudio i fod yn gymdeithion anesthesia ac yn gymdeithion meddygol i fodloni ein safonau. Yn yr un modd ag y mae cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol sy'n fyfyrwyr ac yn weithwyr proffesiynol yn rhoi blaenoriaeth i ofalu am eu cleifion, felly hefyd y sefydliadau sy'n eu haddysgu a'u hyfforddi.

Rydym yn ymgynghori yma ar ddwy set o safonau addysg:

- safonau [ar gyfer cwricwla cyn-gymhwyso i fod yn gymdeithion anesthesia neu'n gymdeithion meddygol](#) (ein 'safonau cwricwla')
- safonau [ar gyfer darparu addysg cyn-gymhwyso i fod yn gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol](#) (ein 'safonau cwrs').

Mae pob cwricwlwm i'r DU gyfan yn darparu gofynion manwl ar yr hyn y dylid ei addysgu i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Nodir ein disgwyliadau ar gyfer pob cwricwlwm yn ein safonau cwricwla, y mae'n rhaid i bob cwricwlwm eu bodloni er mwyn cael eu cymeradwyo.

Bydd un cwricwlwm ar gyfer cymdeithion anesthesia, sy'n eiddo i Goleg Brenhinol yr Anesthetyddion (RCA) ac un cwricwlwm ar gyfer cymdeithion meddygol, sy'n eiddo i'r Gyfadran Cymdeithion Meddygol (FPA). Ymgynghorodd yr RCA a'r FPA â rhanddeiliaid allweddol ynghylch datblygu pob cwricwlwm yn unol â'n gofynion rheoleiddio. Bydd cyfrifoldeb parhaus gan y ddau sefydliad dros gynllunio a datblygu pob cwricwlwm mewn ffordd sy'n bodloni ein safonau. Cyfeirir atynt isod fel 'datblygwr y cwricwlwm'.

Mae safonau'r cwrs yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer darparwyr cyrsiau sy'n darparu addysg a hyfforddiant cyn-gymhwyso i fod yn gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn y DU. Rhaid i ddarparwyr cyrsiau ddefnyddio'r cwricwlwm perthnasol ar gyfer y DU gyfan wrth ddatblygu'r cynnwys ar gyfer eu cwrs. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb o ran y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad a ddisgwylir gan gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol sydd newydd gymhwyso.

Mae'r safonau addysg yn cyd-fynd â [deilliannau dysgu generig a chyffredin ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol](#). Mae'r deilliannau dysgu yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad rydym yn disgwyl i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol sydd newydd gymhwyso eu dangos. Mae pob cwricwlwm yn ymgorffori'r canlyniadau dysgu a rennir hyn ond hefyd yn nodi canlyniadau sy'n benodol i'r proffesiwn. Disgwylir i ddarparwyr cyrsiau sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio i fod yn gymdeithion anesthesia ac yn gymdeithion meddygol yn cael cyfleoedd i gyflawni'r deilliannau mewn amgylchedd dysgu cefnogol.

Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2021 fe ofynnem am adborth ar y deilliannau dysgu hyn a phob cwricwlwm drafft a chyhoeddi'r [Fframwaith addysg cyn-gymhwyso ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia: adroddiad ymqysylltu](#).

Pan fydd cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn cael eu rheoleiddio, bydd disgwyl iddynt fodloni ein safonau gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol, sydd eisoes yn berthnasol i feddygon: [Arfer meddygol da](#).

---

Rydym wedi datblygu canllawiau i fyfyrwyr sy'n astudio i fod yn gymdeithion anesthesia ac yn gymdeithion meddygol o ran sut mae'r egwyddorion a'r safonau yn *Arfer meddygol da* yn berthnasol iddynt tra byddant yn dysgu: [Sicrhau arfer meddygol da: canllaw interim i fyfyrwyr sy'n astudio i fod yn gymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia.](#)

Aethom ati i ddatblygu [canllawiau i ddarparwyr cyrsiau](#) ar beth i'w wneud os oes pryderon ynghylch gallu myfyriwr i fodloni'r safonau a ddisgwylir ganddynt. Buom yn gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys cyrff cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, grwpiau sy'n cynrychioli meddygon, a chyflogwyr i ddrafftio hyn.

Byddwn yn cymeradwyo pob cwricwlwm a phob cwrs ar gyfer darpar gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn erbyn y safonau a nodir uchod, gan ddefnyddio'r prosesau a ddisgrifir yn y rheolau.

Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, byddwn yn gosod y cwricwla a'r cyrsiau mewn cylch sicrhau ansawdd cyson er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Os bydd pob cwricwlwm neu gwrs unigol yn methu a chyrraedd ein safonau, byddwn yn gweithredu.

## Beth mae ein rheolau addysg a hyfforddiant yn eu cynnwys

Mae'r rheolau'n cynnwys yr adrannau canlynol:

- cymeradwyo'r cwricwla – y broses y byddwn yn ei defnyddio i gymeradwyo pob cwricwlwm yn erbyn ein safonau
- cymeradwyo cyrsiau – y broses y byddwn yn ei defnyddio i gymeradwyo cyrsiau yn erbyn ein safonau
- monitro a sicrhau ansawdd – sut byddwn yn monitro ac yn sicrhau ansawdd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cwricwla a'r cyrsiau'n parhau i fodloni ein safonau
- mesurau – sut byddwn yn gweithredu os bydd cwricwlwm neu gwrs yn methu a chyrraedd ein safonau
- rhoi gwybod am benderfyniadau – ein proses ar gyfer rhoi gwybod i sefydliad am benderfyniad ynghylch eu cais am gymeradwyaeth i gwricwlwm neu gwrs neu benderfyniad sy'n effeithio ar statws eu cymeradwyaeth.

Rydym wedi nodi isod sut bydd pob un o'r prosesau hyn yn gweithredu.

### Cymeradwyo Cwricwla (rheol 3)

Fel y soniwyd uchod, dim ond un cwricwlwm fydd ar gael ar gyfer pob un o'r proffesiynau cydymaith, a fydd yn berthnasol ar draws y DU. Rydym wedi gweithio'n agos gyda datblygwyr y cwricwlwm i gefnogi'r gwaith o ddatblygu pob cwricwlwm drafft.

Drwy'r broses hon fe wnaethom y canlynol:

- rhoi cyngor ar yr hyn sydd ei angen i fodloni ein safonau

- 
- casglu adborth gan randdeiliaid ar gam ffurfiannol yn y broses o ddatblygu pob cwricwlwm
  - comisiynu adolygiad gan arbenigwyr annibynnol.

Pan fyddwn yn dechrau ar y broses gymeradwyo, byddwn yn asesu a yw pob cwricwlwm yn bodloni ein safonau. Er mwyn i ni wneud hyn, rhaid i ddatblygwyr y cwricwlwm gyflwyno cais sy'n cynnwys crynodeb o'u cwricwlwm drafft. Rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth sy'n dangos sut y rhoddwyd sylw i'n safonau a'n gofynion wrth gynllunio a datblygu'r cwricwlwm arfaethedig.

Byddwn yn cymeradwyo cwricwlwm pan fyddwn yn fodlon ei fod yn bodloni ein safonau. Bydd angen i ddatblygwr y cwricwlwm sicrhau bod ei gwricwlwm, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, yn parhau i fodloni ein safonau. Os bydd datblygwr y cwricwlwm yn dymuno gwneud newidiadau yn y dyfodol, bydd angen iddo ailymgeisio am gymeradwyaeth, gan nodi sut mae'r rhain yn bodloni ein safonau.

## Cymeradwyo cyrsiau a chymwysterau (rheolau 4 a 5)

Ar ôl i'r rheoleiddio ddechrau, bydd angen i sefydliadau sy'n dymuno darparu addysg cymhwys i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, gan gynnwys sefydlu cwrs newydd i gymdeithion, wneud cais am gymeradwyaeth i'w cwrs.

Wrth ddatblygu eu cwrs, rhaid i bob darparwr sicrhau ei fod yn bodloni ein safonau ar gyfer cyrsiau. Rhaid i ddarparwyr wneud y canlynol:

- dangos eu bod wedi ymgorffori'r deilliannau dysgu lefel uchel a nodir yng nghwricwlwm perthnasol y DU gyfan yn eu cwrs
- cadarnhau bod ganddynt y pwerau i ddyfarnu graddau
- darparu tystiolaeth i ddangos sut mae'r cwrs yn bodloni ein safonau ar gyfer cyrsiau.

Byddwn yn arwain y sefydliad ar natur a chwmpas y dystiolaeth y mae'n rhaid iddynt ei gyflwyno fel rhan o'u cais. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth arnom gan y sefydliad i gefnogi eu cais.

Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y sefydliad, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ychwanegol rydym wedi gofyn amdani, ac yn ymgymryd â gweithgarwch sicrhau ansawdd, fel ymweliadau â'r sefydliad, fel sy'n briodol.

Byddwn yn cymeradwyo cwrs pan fyddwn yn fodlon ei fod yn bodloni ein safonau.

Os nad yw cwrs yn bodloni ein safonau'n llawn, gallwn, mewn rhai amgylchiadau, roi cymeradwyaeth amodol, ar yr amod bod darparwr y cwrs yn cymryd unrhyw gamau a nodwyd. Bydd cymeradwyaeth amodol o'r math hwn yw ond yn cael ei roi lle mae'r cwrs yn cyflwyno'r cwricwlwm cymeradwy a bod myfyrwyr yn cael eu cefnogi i fodloni'r safonau proffesiynol yn *Arfer meddygol da*.

Pan gaiff cwrs ei gymeradwyo, bydd y cymhwyster a ddyfernir ar ôl llwyddo i gwblhau'r cwrs hefyd yn cael ei gymeradwyo.

---

Pan fyddwn yn penderfynu rhoi cymeradwyaeth amodol, neu wrthod cymeradwyaeth, byddwn yn egluro ein rhesymau dros wneud hynny i'r sefydliad.

## Prosesau cymeradwyo trosiannol ar gyfer cyrsiau cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol sydd eisoes yn bodoli

Mae'r rheolau addysg a hyfforddiant yn disgrifio sut byddwn yn cymeradwyo cyrsiau cymdeithion anesthesia neu gymdeithion meddygol newydd ar ôl i'r drefn reoleiddio ddod i rym. Fodd bynnag, mae yna gyrsiau cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol sy'n bodoli eisoes, a bydd angen i'w darparwyr hefyd geisio cymeradwyaeth ar gyfer y cyrsiau hyn unwaith y bydd y gwaith rheoleiddio'n dechrau.

Bydd ein proses gymeradwyo yn gweithio yn y ffordd ag a ddisgrifir uchod (gweler Cymeradwyo cyrsiau, rheol 4), ond rydym wedi gwneud trefniadau ychwanegol i baratoi darparwyr sy'n darparu'r cyrsiau hyn ar gyfer rheoleiddio.

Ar hyn o bryd mae 37 o gyrsiau cymdeithion meddygol a thri chwrs i gymdeithion anesthesia yn y DU, a ddarperir ar draws 38 o sefydliadau addysg uwch. Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn i'w helpu i baratoi ar gyfer rheoleiddio.

Ymgysylltodd pob sefydliad â fersiwn wirfoddol o'n proses sicrhau ansawdd ac fe gymerodd ein tîm sicrhau ansawdd y camau canlynol:

- ymgymryd â gweithgareddau sicrhau ansawdd ychwanegol
- adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd
- rhoi adborth ysgrifenedig a llafar.

Er mwyn lleihau unrhyw oedi cyn y gall cyrsiau presennol ddyfarnu cymwysterau cydymaith anesthesia a chydymaith meddygol cymeradwy, rydym yn bwriadu cymeradwyo cyrsiau cymdeithion presennol yn fuan ar ôl i'r gwaith rheoleiddio ddechrau, ar yr amod eu bod yn bodloni'r [chwe maen prawf](#) rydym wedi'u gosod i lywio'r penderfyniadau hyn.

Os nad ydym yn fodlon bod ein meini prawf yn cael eu bodloni, byddwn naill ai'n rhoi cymeradwyaeth amodol, neu'n gwrthod cymeradwyaeth.

## Monitro a Sicrhau Ansawdd (rheol 6)

Ar ôl i'r cyrsiau gael eu cymeradwyo, byddwn yn eu cynnwys ar ein cylch sicrhau ansawdd parhaus i sicrhau eu bod yn cynnal ein safonau.

Fel rhan o hyn, byddwn yn cymryd camau sicrhau ansawdd rhagweithiol ac adweithiol, sy'n ein galluogi i wneud yn siŵr bod cyrsiau'n cyrraedd ein safonau. Mae'r rhain yn efelychu'r gweithgareddau rydym yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd i sicrhau ansawdd rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer ysgolion meddygol a rhaglenni hyfforddiant ôl-raddedig ar gyfer meddygon.

Dyma rai o'r gweithgareddau sicrhau ansawdd rhagweithiol:

- 
- gofyn i ddarparwyr cyrsiau lenwi holiadur hunanasesu blynyddol (ac rydym yn ei adolygu ac yn rhoi adborth arno)
  - ymweld â'r sefydliad
  - arsylwi
  - adolygu dogfennau.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb sicrhau ansawdd blynyddol ar gyfer pob sefydliad, sy'n rhoi manylion y gweithgareddau sicrhau ansawdd rydym wedi ymgymryd â nhw dros y flwyddyn ar gyfer eu cyrsiau.

Os bydd mater yn cael ei godi, byddwn yn cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd adweithiol i sicrhau nad yw safonau'n cael eu peryglu. Gall hyn gynnwys cymryd camau i hyrwyddo a sicrhau bod sefydliad perthnasol (er enghraifft, y Coleg Brenhinol neu'r Gyfadran) yn rheoli'r pryderon yn lleol.

Mae ein [fframwaith sicrhau ansawdd](#) yn rhoi rhagor o fanylion am y gweithgareddau hyn a sut maen nhw'n cael eu cyflawni.

Yn achos cwricwla, rydym yn disgwyl i ddatblygwyr cwricwlwm sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnal ein safonau. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ein dull o sicrhau ansawdd cwricwla ôl-raddedig ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol—bydd dysgu o hyn yn llywio ein dull o sicrhau ansawdd pob cwricwlwm ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn unol â hynny.

## **Gweithredu: mesurau (rheolau 7, 8 a 9) a hysbysiadau (rheolau 10 ac 11)**

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau i wneud yn siŵr eu bod yn deall beth yw ein safonau ac yn gwybod pa wybodaeth y mae angen iddynt ei darparu i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau hynny. Fodd bynnag, os nad yw cwrs yn bodloni ein safonau, mae'n bosibl y byddwn yn cymryd camau drwy osod mesur yn erbyn eu statws cymeradwy. Gallai hyn gynnwys gosod amodau, y mae'n rhaid i ddarparwr cwrs sicrhau bod y cwrs yn cydymffurfio â hwy, neu'n diddymu cymeradwyaeth o'u cwrs yn gyfan gwbl.

Byddwn yn gosod amodau pan fydd eu hangen er mwyn sicrhau diogelwch cleifion neu les dysgwyr. Er enghraifft, gallai amod ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr beidio â defnyddio lleoliadau clinigol lle na ellir darparu goruchwyliaeth, neu gyflwyno tystiolaeth frys bod yr holl ddeilliannau dysgu priodol yn cael eu cyflawni.

Os ydym yn bwriadu gosod amod, rhaid i ni hysbysu darparwr y cwrs yn gyntaf o'n bwriad i wneud hynny. Yna, bydd cyfle i'r darparwr gyflwyno sylwadau (rhoi sylwadau ysgrifenedig i ni) am ein dull gweithredu arfaethedig. Gallai hyn olygu bod y darparwr yn rhoi sylwadau ar ein dull gweithredu arfaethedig a/neu'n darparu rhagor o wybodaeth/tystiolaeth os nad yw'n credu fod cyfiawnhad dros hyn. Ar ôl i ni ystyried unrhyw dystiolaeth ychwanegol, byddwn yn gwneud ein penderfyniad terfynol.

---

Byddwn yn monitro cydymffurfiad â'r amodau a osodwyd. Byddant yn cael eu diwygio, os oes angen, neu eu dileu os nad oes eu hangen mwyach.

Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau i sbarduno gwelliannau lle nad yw ein safonau'n cael eu bodloni. Dim ond fel dewis olaf y byddwn yn defnyddio ein pwerau i ddirymu cymeradwyaeth, ar ôl ystyried pob opsiwn arall i gymell gwelliant, a lle rydym yn credu mai dyma'r unig opsiwn sy'n weddill i sicrhau bod gan gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol gymwysterau priodol ac i ddiogelu cleifion a/neu ddysgwyr. Unwaith eto, byddwn yn rhoi gwybod i'r darparwr am y cynnig hwn a bydd cyfle iddynt i roi sylwadau cyn i ni wneud penderfyniad terfynol. Os byddwn yn diddymu ein cymeradwyaeth i gwrs, bydd ein cymeradwyaeth i'r cymhwyster a ddyfernir ar ôl llwyddo i gwblhau'r cwrs hwnnw hefyd yn cael ei diddymu.

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

I raddau helaeth, mae ein dull gweithredu'n debyg i'r ffordd rydym yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant i feddygon ar hyn o bryd.

- Rydym yn gosod safonau y disgwyliwn i ddatblygwyr cwricwlwm, a darparwyr addysg a hyfforddiant eu cyflawni.
- Rydym hefyd yn pennu'r canlyniadau y disgwyliwn i feddygon sydd newydd gymhwyso eu gwybod a gallu eu bodloni, ac y disgwyliwn i ddarparwyr addysg a hyfforddiant eu cyflawni.

Mae'r Ddeddf Feddygol yn rhoi pwerau gwahanol i ni yn y sector israddedig i'r rhai sydd gennym yn y sector ôl-raddedig. Mae hynny'n golygu ein bod yn cymeradwyo ac yn sicrhau ansawdd pob un o'r sectorau hynny mewn ffordd wahanol.

### Addysg feddygol israddedig

Rydym yn cadw rhestr o ysgolion meddygol cymeradwy sy'n cael dyfarnu cymhwyster meddygol sylfaenol. I roi cymeradwyaeth, rydym yn cynnal cyfnod helaeth o sicrhau ansawdd i'r cyrff hyn. Nid ydym yn cymeradwyo cyrsiau unigol, nac yn cymeradwyo'r cwricwla israddedig a ddefnyddir gan y cyrsiau. Fodd bynnag, rydym yn sicrhau ansawdd y cyrsiau yn unol â'n safonau.

Rydym hefyd yn mynd ati'n benodol i sicrhau ansawdd elfennau o'u harholiadau terfynol i wneud yn siŵr eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn fframwaith ein Hasesiad Trwyddedu Meddygol. Yn y dyfodol, bydd angen i feddygon basio'r Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA) fel rhan o'u rhaglen gradd cyn y bydd modd iddynt ymuno â'n cofrestr. Ac er na fydd yn rhan o'u cwrs, bydd angen i gymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia sy'n dymuno cofrestru gyda'r GMC basio'r asesiad cofrestru cymdeithion meddygol a'r asesiad cofrestru cymdeithion anesthesia er mwyn bod yn gymwys i gofrestru gyda'r GMC.

---

## **Addysg feddygol i raddedigion**

Rydym yn cymeradwyo cwricwla a ddatblygwyd gan y Colegau Brenhinol ac rydym yn cadw rhestr o raglenni a safleoedd cymeradwy i raddedigion. Rydym hefyd yn cymeradwyo hyfforddwyr uwchraddedig unigol a'r lleoliadau lle mae addysg a hyfforddiant yn digwydd. Ar ôl cael cymeradwyaeth, rydym yn cynnal cylch sicrhau ansawdd parhaus i sicrhau y cynhelir ein safonau.

Fel y nodir uchod, rydym yn bwriadu dilyn y prosesau hyn ar gyfer addysg a hyfforddiant cyn-gymhwys ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.

## **Cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol**

Ein bwriad yw cymeradwyo cyrsiau unigol ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, yn hytrach na sefydliadau addysg a hyfforddiant yn eu cyfanrwydd. Pan fydd gennym bryderon am gwrs, mae hyn yn golygu y gallwn gymryd camau cymesur a phenodol sy'n fwy addas i anghenion y cwrs hwnnw yn hytrach na chymryd camau a fydd yn effeithio ar bob cwrs sy'n cael ei redeg gan y sefydliad hwnnw.

Bydd hyn yn arbennig o fuddiol yng nghyd-destun addysg i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol oherwydd y gall sefydliadau redeg sawl cwrs – er enghraifft, cyrsiau â mynediad i israddedigion, cyrsiau â mynediad i raddedigion neu gyrsiau prentisiaeth. Bydd gallu cymeradwyo a sicrhau ansawdd pob cwrs unigol yn sicrhau ein bod yn darparu lefel fanwl o graffu a chymorth yn ôl gofynion y cwrs.

## Cwestiynau ymgynghori – addysg a hyfforddiant

- 1** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y safonau a nodir yn *Safonau ar gyfer cwricwla cydymaith meddygol a chydymaith anesthesia* yn disgrifio'r meini prawf hanfodol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cymeradwyo'r cwricwlwm cydymaith meddygol a'r cwricwlwm cydymaith anesthesia? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

- 2** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y safonau a nodir yn *Safonau ar gyfer darparu addysg cyn-gymhwysio i gymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia* yn disgrifio'r meini prawf hanfodol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cymeradwyo cwrs i gymdeithion meddygol ac i gymdeithion anesthesia? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

- 3** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o gymeradwyo addysg a hyfforddiant cyn-gymhwysio, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

- 4** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o fonitro a sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant cyn-gymhwysio, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

- 5** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o ychwanegu amodau neu dynnu ein cymeradwyaeth yn ôl i addysg a hyfforddiant cyn-gymhwysio, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

---

## RHAN 3 – Sefydlu cofrestr o gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol

### Y gofrestr

Ein rôl gyda chymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yw gwneud yn siŵr o'r canlynol:

- ein bod yn sefydlu ac yn cynnal un gofrestr ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, gydag un rhan ar gyfer cymdeithion anesthesia a rhan arall ar gyfer cymdeithion meddygol
- bod y gofrestr yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'n rhaid i ni ei chasglu
- bod y gofrestr, a'r cofnodion ynddi, yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol
- ein bod yn cyhoeddi gwybodaeth o'r gofrestr sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd.

### Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn ymgynghori ynghylch y set ganlynol o reolau:

- llunio a chadw [rheolau'r](#) gofrestr – sy'n disgrifio ein dull o sefydlu a chynnal cofrestr.

Rydym yn croesawu sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein rheolau arfaethedig, yn enwedig sylwadau ar y canlynol:

- ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cynnal y gofrestr, ac i ba raddau mae ein prosesau'n glir, yn deg ac yn gymesur.

Cyn adolygu ein rheolau arfaethedig, sydd i'w gweld drwy glicio ar y dolenni uchod, rydym yn eich annog i ddarllen Rhan 3 y ddogfen ymgynghori yn gyntaf, sy'n rhoi rhagor o fanylion am eu pwrpas a'u cwmpas.

---

## Beth mae ein rheolau ar gyfer llunio a chadw'r gofrestr yn eu cynnwys

Mae'r rheolau hyn yn nodi'r canlynol:

- fformat y gofrestr
- y wybodaeth a fydd yn cael ei chynnwys ar y gofrestr am bob cydymaith
- ein proses ar gyfer diwygio cofnodion ar y gofrestr.

Nodir y wybodaeth y byddwn yn ei chasglu a'i chofnodi yn y gofrestr yn rheol 4. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- enw'r cydymaith
- eu rhif cyfeirnod GMC (a fydd yn cynnwys rhagddodiad i wahaniaethu rhwng cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol oddi wrth feddygon)
- dyddiad eu cofrestriad diweddaraf a'u hanes cofrestru
- eu manylion cyswllt
- eu cymwysterau perthnasol
- eu hanes o ran eu haddasrwydd i ymarfer (os o gwbl).

Byddwn yn casglu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hon fel rhan o'r cais i gofrestru fel cydymaith anesthesia / cydymaith meddygol.

Mae rheol 5 yn ein galluogi i ddiweddarau neu gywiro gwybodaeth lle bo angen—gan ganiatáu i ni ychwanegu gwybodaeth berthnasol dros amser, fel hanes o ran addasrwydd i ymarfer a phenderfyniadau apêl.

### Gwybodaeth arall (rheol 4)

Mae'r Gorchymyn yn caniatáu i ni gofnodi gwybodaeth arall yn y gofrestr. Hyd yma, nid ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth bellach am gymdeithion yr hoffem ei chofnodi ar y gofrestr. Os byddwn yn penderfynu casglu categorïau eraill o wybodaeth yn y dyfodol, byddwn yn ymgynghori yn y lle cyntaf ar ein cynigion a'n rhesymau dros wneud hynny.

### Cyhoeddi gwybodaeth o'r gofrestr

Mae cyhoeddi gwybodaeth yn agwedd bwysig ar fod yn rheoleiddiwr agored a thryloyw. Mae'n rhoi sicrwydd i gyflogwyr, cleifion a'r cyhoedd bod pob un sydd wedi cofrestru wedi dangos y safonau sydd eu hangen i ymarfer fel cymdeithion anesthesia a/neu gymdeithion meddygol yn y DU.

Ni fyddwn yn cyhoeddi rhywfaint o'r wybodaeth a gofnodwyd gennym ar y gofrestr (er enghraifft, manylion cyswllt)—mae darpariaethau ar wahân yn y Gorchymyn yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i ni ei gyhoeddi a'r hyn y gallwn ddewis ei wneud.

---

Mae'n rhaid i ni gyhoeddi enw, cyfeirnod a dyddiad cofrestru diweddaraf pob cydymaith cofrestredig, ynghyd â'r rhan o'r gofrestr y maent wedi'i chofrestru ynddi. Pan fydd unigolyn yn cael rhybudd neu gyfyngiad ar ei gofrestrriad oherwydd amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer, byddwn hefyd yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ein gwefan, ochr yn ochr â chanlyniadau unrhyw apeliadau.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi manylion cymhwyster perthnasol pob cydymaith cofrestredig a ddefnyddir i wneud cais i gofrestru, dyddiad eu cofrestrriad cyntaf, a dyddiadau pob newid dilynol i'w statws cofrestru.

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

Mae'r rheolau'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i ni ei chasglu a'i chofnodi ar y gofrestr am gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Ni fyddwn yn cynnwys casglu gwybodaeth am rywedd na dull o dalu'r ffi gadw flynyddol fel gofyniad ar y gofrestr o gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Y rheswm am hyn yw nad yw'r rhain wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth gyffredinol, ac nid oes dadl glir o blaid diogelwch y cyhoedd i'r rheolau ar gyfer cymdeithion anesthesia/cymdeithion meddygol fynnu'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses gofrestru.

Mae hyn yn wahanol i'r ddeddfwriaeth gyfatebol a'r rheoliadau presennol ar gyfer meddygon sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y wybodaeth y gallwn benderfynu ei chofnodi ar y gofrestr. Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y gofynion ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol a'r rhai ar gyfer meddygon, rydym yn bwriadu diweddarau Rheoliadau'r Ffurflen a Chynnwys y Gofrestr ar gyfer meddygon fel nad ydynt yn parhau i fynnu bod y gofrestr yn cynnwys cofnod o wybodaeth am eu rhywedd.

Fodd bynnag, er na fydd ein rheolau'n mynnu ein bod yn casglu gwybodaeth am rywedd at ddibenion cofrestru, byddwn yn parhau i'w chasglu'n wirfoddol fel rhan o'n gwaith arferol o gasglu data monitro amrywiaeth. Byddwn yn cyhoeddi hyn fel rhan o adroddiadau demograffig ehangach, ond nid ar gyfer cymdeithion unigol.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad – ffurflenni a chadw'r gofrestr

- 6** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd arfaethedig at lunio a chadw'r gofrestr, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

---

## Rhan 4 – Ychwanegu enwau at y gofrestr cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol a dileu enwau oddi arni

### Ychwanegu enwau at y gofrestr

Dyma ein rôl gyda chymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol:

- asesu a yw ymgeiswyr yn bodloni ein safonau cofrestru, a chofnodi ymgeiswyr sy'n bodloni ein safonau ac sy'n addas i ymarfer ar y gofrestr
- asesu a yw cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol sydd am ailymuno â'r gofrestr wedi bodloni'r safonau cofrestru gofynnol ac yn addas i ymarfer.

### Dileu enwau oddi ar y gofrestr

Dyma ein rôl gyda chymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol:

- dileu enwau cymdeithion oddi ar y gofrestr o dan yr amgylchiadau sy'n ofynnol gan y Gorchymyn
- penderfynu a ddylid dileu enw cydymaith oddi ar y gofrestr mewn amgylchiadau lle mae'r Gorchymyn yn rhoi'r disgresiwn i ni wneud hynny.

## Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn ymgynghori ynghylch ein [rheolau](#) cofrestru arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y weithdrefn gofrestru ac ailymuno a thystiolaeth—sy'n disgrifio'r gofynion tystiolaeth ar gyfer cais, y prosesau ar gyfer gwneud cais cofrestru ac ailymuno, a'r amgylchiadau lle byddwn yn caniatáu neu'n gwrthod hyn
- y weithdrefn ar gyfer dileu enwau oddi ar y gofrestr.

Rydym yn croesawu sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein rheolau arfaethedig, yn enwedig sylwadau ar y canlynol:

- ein gweithdrefn arfaethedig ar gyfer cais i gofrestru ac i ba raddau y mae hyn yn glir, yn deg ac yn gymesur

- ein gweithdrefn arfaethedig ar gyfer ailymuno, gan gynnwys ein cynnig i ystyried yr amser y bu cydymaith oddi ar y gofrestr – ac i ba raddau y mae hyn yn cynnig proses glir, deg a chymesur
- ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dileu enwau oddi ar y gofrestr, ac i ba raddau mae ein prosesau a ddisgrifir yn y rheolau'n glir, yn deg ac yn gymesur.
- a yw ein rheolau dileu enwau oddi ar y gofrestr yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gosod disgwyliadau clir ynghylch pryd y byddwn yn dileu enwau oddi ar y gofrestr a chaniatáu i ni addasu ein gofynion i amgylchiadau'r unigolyn cyswllt, lle bo hynny'n bosibl
- ein dull arfaethedig o ymdrin â cheisiadau gwirfoddol i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr lle mae pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer heb eu datrys
- ein dull gweithredu arfaethedig o ran pryd y dylai penderfyniad i ddileu enw oddi ar y gofrestr ddod i rym.

Er mwyn helpu i ddehongli hyn, rydym wedi cynnwys datganiad byr ar ddechrau'r rheolau hyn i esbonio hyn. Rydym yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r datganiadau hyn ac rydym yn croesawu adborth ynghylch a ydynt yn helpu i wella eglurder a hygyrchedd y rheolau.

Cyn adolygu ein rheolau arfaethedig, sydd i'w gweld drwy glicio ar y dolenni uchod, rydym yn eich annog i ddarllen Rhan 4 y ddogfen ymgynghori yn gyntaf, sy'n rhoi rhagor o fanylion am bwrpas a chwmpas y dogfennau hyn.

## Beth yw cynnwys ein trefn gofrestru a'n rheolau tystiolaeth

Mae'r rheolau hyn yn nodi'r canlynol:

- ein gweithdrefn ar gyfer ceisiadau cofrestru
- y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi cais
- ein proses ar gyfer asesu'r wybodaeth honno, sy'n cynnwys penderfynu a yw cymhwyster a geir gan ddarparwr tramor yn dderbyniol ar gyfer ymarfer fel cyswllt yn y DU
- ein proses ar gyfer rhoi gwybod i ymgeiswyr am ein penderfyniadau.

## Ein gweithdrefn ar gyfer cofrestru (rheol 4)

Mae'r rheolau'n nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais a'r dystiolaeth y mae'n rhaid ei darparu. Drwy ddarparu'r dystiolaeth hon, bydd pob cydymaith anesthesia a chydymaith meddygol sy'n ymuno â'r gofrestr yn dangos eu bod wedi cyrraedd y safonau gofynnol o ran addysg, hyfforddiant, gwybodaeth, sgiliau, profiad, perfformiad, ymddygiad, moeseg a Saesneg er mwyn cofrestru ac ymarfer yn y DU. Byddwn yn caniatáu cofrestriadau gan ymgeiswyr sydd wedi bodloni'r safonau a'r gofynion, ac sydd wedi talu'r ffi gofrestru.

---

## Ein gofynion tystiolaeth (rheolau 3-4)

Mae Rheol 4 hefyd yn nodi'r categorïau o wybodaeth y mae angen i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol eu darparu fel rhan o'u cais. Bwriad y rheolau yw rhoi hyblygrwydd o ran sut y gall ymgeiswyr ddangos eu bod wedi bodloni'r gofynion hynny ar sail eu hamgylchiadau unigol. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth am ein [gofynion cofrestru ar gyfer darpar ymgeiswyr](#). A byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar y mathau o dystiolaeth a fydd yn dderbyniol cyn dechrau rheoleiddio.

Bydd angen i unigolion sydd wedi cymhwyso yn y DU ddarparu tystiolaeth o gymhwyster perthnasol ar lefel diploma ôl-radd neu uwch. O dan reol 3, bydd angen i unigolion nad ydynt wedi cymhwyso yn y DU ddarparu gwybodaeth am eu cymhwyster cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol er mwyn i ni asesu a yw'n dderbyniol iddynt ymarfer fel cydymaith yn y DU.

Hefyd, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ac asesiadau, ac wedi cael profiad. I'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, bydd hyn yn golygu eu bod wedi pasio'r asesiadau cofrestru ar gyfer eu proffesiwn yn ddiweddar. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gofyn i gymdeithion sydd eisoes wedi eu cyflogi yn y rolau hynny pan fydd rheoleiddio'n dechrau i ailsefyll asesiad cyn belled â bod eu hanes gwaith yn darparu tystiolaeth barhaus i ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion o ran gwybodaeth a sgiliau. Byddwn yn nodi ein polisi ar hyn maes o law.

Bydd gofyn i ymgeiswyr hefyd lofnodi datganiadau yn cadarnhau eu trefniadau yswiriant ac indemniad, eu bod yn addas i ymarfer, ac yn rhoi manylion eu hanes cyflogaeth fel cymdeithion anesthesia neu gymdeithion meddygol (lle bo hynny'n berthnasol).

## Dilysu ac asesu (rheol 5)

Byddwn yn gwirio cywirdeb a dilysrwydd yr wybodaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr ac mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am ragor o fanylion lle bo angen.

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd sy'n ceisio cofrestru fodloni'r un safon dilysu ID. Pwrpas hyn yw sicrhau ein bod yn lleihau'r risg o ddwyn hunaniaeth a thwyll er mwyn cynnal uniondeb y gofrestr. Bydd cofrestrriad ond yn cael ei ganiatáu os gallwn wirio pwy yw ymgeisydd.

Bydd angen i bob ymgeisydd hefyd ddilysu ei gymhwyster perthnasol gan ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi'r hyder i'r cyhoedd fod gan unigolion cofrestredig y wybodaeth a'r cymwysterau sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel i gleifion – yn ogystal â sicrhau bod y cymwysterau'n ddilys.

Mae rheol 5 yn nodi'r amgylchiadau lle bydd cais yn cael ei wrthod, sy'n cynnwys, er enghraifft, achosion lle nad ydym yn fodlon bod y safonau cofrestru wedi cael eu bodloni.

Bydd ceisiadau'n cael eu cau pan fydd ymgeiswyr wedi methu â darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, neu pan nad ydynt wedi talu'r ffi gofrestru.

## Hysbysiadau (rheol 6)

Byddwn yn rhoi gwybod i ymgeiswyr o fewn pum diwrnod busnes am unrhyw benderfyniad i wrthod neu gau eu cais. Pan fyddwn yn gwrthod neu'n cau cais i gofrestru, byddwn yn egluro ein rhesymau dros wneud hynny. Pan fyddwn yn gwrthod cais, byddwn yn rhoi gwybod i ymgeiswyr y gallant apelio yn erbyn ein penderfyniad o fewn 28 diwrnod (edrychwch ar Ran 6 i gael rhagor o fanylion am ein fframwaith apelïadau).

---

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

Mae datblygu rheolau cofrestru yn ofyniad o dan y Gorchymyn nad yw'n bodoli yn y Ddeddf Feddygol. Mae'r fframwaith rheolau yn newydd ond wrth ei chynllunio rydym wedi anelu at hyblygrwydd a chymesuredd i ganiatáu i ni fabwysiadu llawer o'r un dulliau polisi sydd gennym ar waith ar gyfer meddygon.

Bydd rhoi manylion ein gweithdrefnau a'n dull gweithredu mewn rheolau hefyd yn cryfhau tryloywder ac yn rhoi sicrwydd i gymdeithion ynghylch sut bydd ein prosesau'n gweithio.

Fel y nodir uchod, mae'r Gorchymyn ei gwneud yn ofynnol i bob cydymaith anesthesia a chydymaith meddygol fodloni'r safonau a'r gofynion angenrheidiol ar gyfer cofrestru, lle bynnag y maent yn cymhwyso.

## Beth mae ein rheolau ailymuno yn ei gynnwys (rheolau 19 – 23)

Pan fydd cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol wedi gofyn i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr, mae ein rheolau ailymuno'n nodi'r broses ar gyfer gwneud cais i ailymuno â'r gofrestr. Mae'r rheolau'n nodi'r broses a'r gofynion tystiolaeth cymesur i asesu a yw unigolyn cyswllt yn bodloni'r safonau ar gyfer cofrestru ac a ydynt yn addas i ymarfer.

Mae'r rheolau ailymuno'n nodi'r canlynol:

- y weithdrefn ar gyfer gwneud cais i ailymuno â'r gofrestr, gan gynnwys cyfyngiadau ar geisiadau i ailymuno mewn achosion penodol
- yr achosion lle mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos nad oes amhariad ar eu haddasrwydd i ymarfer
- ein gweithdrefn ar gyfer asesu ceisiadau ailymuno ar ôl i'w henwau gael eu dileu gan fesur terfynol addasrwydd i ymarfer
- ein gweithdrefn ar gyfer asesu ceisiadau ailymuno lle mae angen asesu pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer
- sut byddwn yn rhoi gwybod i unigolion am ein penderfyniad ynghylch ailymuno ac yn cyflwyno'r penderfyniadau hynny.

---

## Y weithdrefn ar gyfer gwneud cais i ailymuno â'r gofrestr (rheol 19)

Mae'r rheol hon yn ymdrin â'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais i ailymuno â'r gofrestr a fydd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr. Mae'n nodi'r gofynion tystiolaeth y mae'n rhaid i ymgeiswyr eu dangos pan fyddant am ailymuno â'r gofrestr.

Rydym yn mynnu y bodlonir yr un safonau cofrestru adeg ailymuno, ond mae'r gofynion tystiolaethol wedi'u teilwra yn ôl yr amser y bu'r cydymaith anesthesia neu'r cydymaith meddygol oddi ar y gofrestr. Bydd hyn yn caniatáu i ni ystyried am ba hyd y mae gwahanol fathau o dystiolaeth yn dal yn ddilys. Er enghraifft, os mai dim ond am gyfnod byr y cafodd unigolyn ei dynnu oddi ar y gofrestr, ni fydd angen rhagor o dystiolaeth arnom o allu yn y Saesneg. Mae hyn yn seiliedig ar ein hasesiad y dylai tystiolaeth o allu yn y Saesneg barhau i fod yn ddilys am gyfnod o ddwy flynedd.

Mae'r rheol hon hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan na fydd cydymaith yn gymwys i wneud cais i ailymuno â'r gofrestr drwy'r llwybr hwn. Yn yr achos hwn byddwn wedi dileu enw cydymaith oherwydd cais twyllodrus neu lle rydyn ni wedi rhoi cydymaith ar y gofrestr mewn camgymeriad.

Mae'r rheolau'n cynnig cyfyngiadau eraill ar gyfer ceisiadau ailymuno lle cafodd enw cydymaith ei ddileu'n awtomatig oherwydd iddynt gyflawni un o'r troseddau difrifol a restrir yn y Gorchymyn neu oherwydd bod tribiwnlys neu archwilydd achos wedi gosod mesur dileu terfynol. Yn yr amgylchiadau hyn, nid oes hawl gan gymdeithion i wneud cais i ailymuno â'r gofrestr hyd nes y bydd o leiaf bum mlynedd wedi mynd heibio, neu hyd nes ar ôl i ddyddiad gorffen unrhyw ddedfryd am euogfarn droseddol fynd heibio. Mae hyn yn adlewyrchu difrifoldeb yr amgylchiadau a arweiniodd at dynnu eu henw oddi ar y gofrestr a'r angen i sicrhau hyder y cyhoedd yn y proffesiynau. Er mwyn darparu dull teg a chymesur o ddelio â cheisiadau i ailymuno yn yr achosion hyn, rydym hefyd yn cynnig cyfyngu ar nifer y ceisiadau y gall unigolyn eu gwneud i dri.

Ym mhob achos lle rydym wedi gwrthod cais i ailymuno gan nad ydym yn fodlon nad oes amhariad ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer, rydym wedi cynnwys terfyn amser o 12 mis ar gyfer cyflwyno cais pellach (h.y. ni ellir cyflwyno cais pellach nes bod 12 mis wedi mynd heibio). Mae hyn yn rhoi amser i ymgeiswyr gasglu rhagor o dystiolaeth berthnasol ac yn sicrhau ein bod yn gallu delio mewn ffordd gymesur â cheisiadau mwy nag unwaith i ailymuno.

## Ein gweithdrefn gyffredinol ar gyfer ceisiadau i ailymuno a'r dull cyffredinol o asesu ceisiadau i ailymuno â'r gofrestr (rheol 20)

I benderfynu ar gais i ailymuno, mae'n bosibl y bydd angen i ni wneud ymholiadau pellach neu ofyn am ragor o wybodaeth.

Pan fyddwn yn cael rhagor o wybodaeth am addasrwydd unigolyn i ymarfer, mae'r rheolau'n mynnu ein bod yn rhannu'r wybodaeth honno â'r ymgeisydd ac yn rhoi cyfle iddynt roi sylwadau o fewn 28 diwrnod.

Mae'r rheol hon hefyd yn nodi'r amgylchiadau lle bydd ceisiadau i ailymuno'n cael eu cau ac na fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch ailymuno. Mae hyn yn digwydd pan fydd cydymaith yn methu â darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom neu'n methu â thalu'r ffi gofrestru ofynnol.

---

## Ein gweithdrefn ar gyfer asesu ceisiadau i ailymuno lle dilëwyd enw'r ymgeisydd yn dilyn mesur terfynol addasrwydd i ymarfer (rheol 21)

Pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais i ailymuno â'r gofrestr ar ôl i'w enw gael ei ddileu fel mesur terfynol addasrwydd i ymarfer, mae dwy ran i'n penderfyniad ynghylch a ddylid caniatáu neu wrthod ei gais.

- Bydd tribiwnlys yn y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) yn penderfynu a yw'n fodlon nad oes amhariad ar addasrwydd ymgeisydd i ymarfer. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am yr atgyfeiriad i dribiwnlys a chynhelir gwrandawriad i adolygu tystiolaeth yr ymgeisydd o'i addasrwydd i ymarfer (nodir y weithdrefn ar gyfer y gwrandawriad yn ein Rheolau Dyfarnu – gweler Rhan 5 am ragor o fanylion).
- Byddwn hefyd yn asesu a yw'r ymgeisydd yn bodloni'r safonau ar gyfer cofrestru.

Yn amodol ar ganlyniad y ddau benderfyniad hyn, bydd y Cofrestrydd wedyn yn caniatáu neu'n gwrthod y cais.

## Ein gweithdrefn ar gyfer asesu ceisiadau i ailymuno ar ôl i'w henw gael ei ddileu am unrhyw reswm arall (rheol 22)

Rhaid i bob ymgeisydd ddangos ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer cofrestru sydd wedi'u nodi yn rheol 4. Mewn rhai achosion, rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos nad oes amhariad ar eu haddasrwydd i ymarfer – mae'r rhain yn cynnwys achosion lle'r oedd y canlynol yn wir am yr ymgeisydd:

- tynnwyd eu henw oddi ar y gofrestr yn awtomatig – gan gynnwys achosion lle diddymwyd eu heuogfarn droseddol yn ddiweddarach
- roedd amod addasrwydd i ymarfer neu ataliad yn ei le ar yr adeg y gwnaethant adael y gofrestr
- roedd ymchwiliad addasrwydd i ymarfer ar y gweill ar yr adeg y gwnaethant adael y gofrestr
- roedd pryder wedi'i fynegi am eu haddasrwydd i ymarfer ers y dyddiad y tynnwyd eu henw oddi ar y gofrestr
- gwnaethant ddatgan pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer fel rhan o'u cais.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd ei bod yn ofynnol iddynt ddangos nad oes amhariad ar eu haddasrwydd i ymarfer a bod ganddynt hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod. Os na wneir unrhyw sylwadau ysgrifenedig, gallwn fwrw ymlaen i wneud penderfyniad ar sail y wybodaeth sydd gennym.

Byddwn yn nodi yn ein canllawiau pa wybodaeth y gall ymgeiswyr ei darparu i gefnogi eu cais.

Mae'r rheol yn nodi y gall y Cofrestrydd naill ai ganiatáu neu wrthod cais i ailymuno â'r gofrestr neu'r amgylchiadau lle gellir gwrthod cais.

---

## Sut byddwn yn rhoi gwybod i unigolion am ein penderfyniad ynghylch ailymuno a gwneud penderfyniadau (rheolau 23 - 24)

Mae ein rheolau'n nodi'r amserlenni a'r broses ar gyfer cyfleu ein penderfyniadau i ymgeiswyr. Os byddwn yn cau cais am ei fod yn anghyflawn, neu os na dalwyd y ffi, byddwn yn egluro ein rhesymau. Pan fyddwn yn gwrthod cais, yn ogystal ag egluro ein rhesymau, byddwn yn rhoi gwybod i ymgeiswyr am eu hawl i apelio yn erbyn ein penderfyniad ac unrhyw gyfyngiadau ar wneud ceisiadau pellach (gweler Rhan 5 am fanylion ein fframwaith apelïadau).

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

Yn wahanol i'r trefniadau presennol ar gyfer meddygon, yn achos cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, byddwn yn gallu gofyn am dystiolaeth o'r camau a gymerwyd gan ymgeiswyr i gynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau yn ystod eu cyfnod oddi ar y gofrestr. Rydym yn credu y bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod unigolion yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddiogel i ymarfer.

Ar hyn o bryd, gallwn atal hawl meddyg i wneud cais i ailymuno am gyfnod amhenodol (gall meddygon wneud cais i godi hyn). Nid yw'r Gorchymyn yn rhoi'r gallu i ni wneud hyn ac yn hytrach byddwn yn cyfyngu ar nifer y ceisiadau y gall cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol ei wneud i dri (ar gyfer achosion lle mae cydymaith yn gwneud cais i ailymuno ar ôl i'w henw gael ei ddileu'n awtomatig neu ei ddileu gan fesur terfynol). Rydym yn credu fod hyn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch yr amgylchiadau lle gall unigolion wneud cais i ailymuno.

## Beth yw cynnwys ein rheolau dileu enwau o'r gofrestr (rheolau 7 – 18)

Mae ein rheolau'n nodi'r camau y byddwn ni'n eu cymryd wrth ddileu enw gydymaith oddi ar y gofrestr neu mewn ymateb i gais gan gymdeithion i dynnu eu henwau eu hunain oddi ar y gofrestr. Maent hefyd yn rhoi pwerau i ni ofyn am wybodaeth gan gydymaith neu wneud ymholiadau eraill sy'n angenrheidiol i benderfynu a ddylid dileu enw gydymaith oddi ar y gofrestr.

## Y mesur terfynol ar addasrwydd i ymarfer

**Sylwer:** mae'r broses hon yn dod o dan y rheolau Addasrwydd i Ymarfer yn hytrach na'r rheolau dileu (Gweler Rhan 5 am ragor o fanylion).

Pan fyddwn wedi rhoi mesur terfynol o ddileu i gydymaith yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer, byddwn yn tynnu'r unigolyn cyswllt oddi ar y gofrestr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, fel sy'n ofynnol gan y Gorchymyn.

Bydd hysbysiad o ganlyniad y mesur terfynol a'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw eisoes wedi'i roi drwy'r achos addasrwydd i ymarfer. Gweler rhan 5 i gael rhagor o wybodaeth:

---

## Dileu enw'n awtomatig oddi ar y gofrestr (rheol 7)

Mae'r rheolau'n adlewyrchu'r gofyniad yn y Gorchymyn i ddileu enw cydymaith a gafwyd yn euog o drosedd a restrir oddi ar y gofrestr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Y rheswm am hyn yw bod y troseddau hyn mor ddifrifol fel eu bod yn anghydnaws â bod ar y gofrestr fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Bydd ein gorchymyn i ddileu enwau unigolion dan amgylchiadau o'r fath yn ein galluogi i gymryd camau cyflym a phendant i ddiogelu'r cyhoedd.

Ar ôl i ni ddileu enw cydymaith oddi ar y gofrestr am drosedd a restrir:

- byddwn yn rhoi gwybod iddynt am y dileu o fewn pum diwrnod gwaith (gan gynnwys y dyddiad y dilëwyd eu henwau) a'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i ddileu eu henwau oddi ar y gofrestr ar sail y ddyletswydd dileu awtomatig
- byddwn hefyd yn rhoi gwybod i unrhyw un a oedd yn cyflogi'r cydymaith neu a oedd â threfniant â nhw i ddarparu gwasanaethau ac unrhyw gorff rheoleiddio arall yr oeddynt wedi'i gofrestru ag ef.

## Dileu cofnod am fethu â thalu ffi ofynnol (rheol 15), Dileu cofnod am fethu cynnal yswiriant ac indemniad digonol (rheol 16), Dileu cofnod am fethu â chynnal dull effeithiol o gysylltu â'r Cofrestrydd (rheol 17)

Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith am y bwriad i ddileu eu henw oddi ar y gofrestr, y rhesymau dro hynny a'r camau y gall y cydymaith eu cymryd o fewn cyfnod a bennir gennym i atal hyn. Er enghraifft, gallai'r camau hyn gynnwys talu unrhyw ffioedd gofynnol neu gael yr yswiriant neu'r warchodaeth indemniad angenrheidiol.

Os na chymerir camau pellach, gall y Cofrestrydd (unigolyn penodol, sy'n gweithio i'r rheoleiddiwr, gyda chyfrifoldeb dros benderfyniad penodol) ddileu enw'r cydymaith oddi ar y gofrestr. Ar ôl i ni benderfynu, byddwn yn gwneud y canlynol:

- rhoi gwybod i'r cydymaith o fewn pum diwrnod busnes
- dileu enw'r cydymaith oddi ar y gofrestr ar ôl i ni gyflwyno'r hysbysiad hwn.

## Dileu cofnod a gafodd ei gaffael yn dwyllodrus neu a wnaed yn anghywir (rheol 14), a methiannau i gydymffurfio â gwerthusiad (rheol 13) neu ddarparu gwybodaeth (rheol 18)

Mae gwerthusiad yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at werthusiad o berfformiad, iechyd neu iaith unigolyn, neu werthusiad o'r graddau y mae unigolyn yn bodloni ein safonau.

Yn yr amgylchiadau hyn byddwn yn gwneud y canlynol:

- hysbysu'r cydymaith o'r bwriad i ddileu eu henw oddi ar y gofrestr
- egluro'r rhesymau dros wneud hyn a'u hawl i ddarparu gwybodaeth ychwanegol, o fewn cyfnod penodol, i ni ei hystyried ymhellach – cyfeirir at hyn yn y rheolau fel gwneud sylwadau.

---

Ar ôl cael sylwadau gan yr unigolyn, neu os na wneir unrhyw sylwadau, mae gan y Cofrestrydd y pŵer i ddileu enw'r cydymaith oddi ar y gofrestr. Daw'r penderfyniad i ddileu enw i rym pan fydd y cydymaith yn cael gwybod am hyn. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith am y penderfyniad hwn o fewn pum diwrnod gwaith.

## Cais y cydymaith i ddileu eu henw oddi ar y gofrestr (dileu enw'n wirfoddol) (rheolau 9 – 12)

Mae ein rheolau'n cael eu llunio i ddarparu proses syml i ganiatáu cymdeithion i adael y gofrestr os nad ydynt yn dymuno parhau i ymarfer yn y DU. Er enghraifft, os ydynt yn bwriadu ymddeol, cymryd seibiant gyrfa neu ymarfer mewn gwlad arall. Credwn ei bod yn briodol ei gwneud yn hawdd i gymdeithion dynnu eu henwau oddi ar y gofrestr os ydynt yn dymuno, lle nad oes unrhyw bryderon heb eu datrys ynghylch eu haddasrwydd i ymarfer.

Os yw cydymaith yn dymuno i'w enw gael ei dynnu oddi ar y gofrestr, rhaid iddynt wneud cais ysgrifenedig. Fel arfer, cymeradwyir ceisiadau ar yr amod nad oes unrhyw bryderon heb eu datrys am eu haddasrwydd i ymarfer. Pan ganiateir y cais, byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith a bydd eu henw'n cael ei ddileu oddi ar y gofrestr o'r dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad iddynt.

Os yw'r cais yn anghyflawn neu os nad yw'r cydymaith wedi darparu'r wybodaeth angenrheidiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod gwneud penderfyniad ac yn cau'r cais, a byddwn wedyn yn rhoi gwybod i'r cydymaith fod y cais ar gau ac yn rhoi'n rhesymau dros wneud hynny. Nodir hyn yn rheol 9.

Pan fydd achosion addasrwydd i ymarfer heb eu datrys, bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad ar y cais yn dibynnu ar y cam y daethpwyd iddo yn yr achos hwnnw. Bydd y Cofrestrydd yn ystyried y cais os nad yw'r achos wedi'i gyfeirio at yr archwilydd achos eto i'w ystyried. Os yw eisoes wedi'i gyfeirio, bydd yr archwilydd achos yn ystyried y cais. Ac os cyfeiriwyd yr achos at dribiwnlys, yna gall yr archwilydd achos neu'r tribiwnlys ystyried y cais os nad yw'r tribiwnlys wedi cyrraedd y cam a ddisgrifir yn rheol 42(1)(b)(iii) y Rheolau Dyfarnu eto. Os yw'r achos wedi cyrraedd y cam hwn, bydd y tribiwnlys yn ystyried y cais. Nodir hyn yn rheolau 10 ac 11.

Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch cais i ddileu enw oddi ar y gofrestr, byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith o fewn pum diwrnod busnes a ydym wedi caniatáu neu wrthod y cais (ynghyd â'r rhesymau dros wrthod os yw'n berthnasol) ac, os caiff ei ganiatáu, y dyddiad y daw i rym. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod iddynt am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Nodir hyn yn rheol 12.

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

Mae'r gofyniad i fynd ati'n awtomatig i ddileu enwau cymdeithion a gafwyd yn euog o'r troseddau a restrir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn yn ddyletswydd newydd ac nid yw'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer meddygon o dan y Ddeddf Feddygol.

Ar gyfer meddygon, mae'n dal yn ofynnol i ni ddangos bod cael eu canfod yn euog o droseddau difrifol yn amharu ar eu haddasrwydd i ymarfer.

Mae ein dull arfaethedig o ystyried ceisiadau gan gymheiriaid i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr, lle nad oes pryderon heb eu datrys ynghylch eu haddasrwydd i ymarfer, yn cynnig proses gyflym a

chymesur ar gyfer y proffesiynau hyn.

**Cwestiynau ymgynghori – Ychwanegu enwau at y gofrestr cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol a dileu enwau oddi arni**

- 7** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o gofrestru, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

- 8** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o ailymuno â'r gofrestr, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

- 9** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o ddileu enwau oddi ar y gofrestr, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

- 10** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o ymdrin â cheisiadau i ddileu enwau oddi ar y gofrestr (gan gynnwys lle gallai fod pryderon heb eu datrys ynghylch eu haddasrwydd i ymarfer), fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

- 11** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ynghylch pryd y daw penderfyniadau i ddileu enwau oddi ar y gofrestr i rym? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb

## Rhan 5 – Achosion addasrwydd i ymarfer

### Addasrwydd i ymarfer

Ar gyfer chymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, ein rôl fydd sefydlu a gweithredu proses ar gyfer delio â phryderon sy'n cael eu codi gyda ni am addasrwydd cydymaith i ymarfer – bydd hyn yn cynnwys y camau canlynol.

- **Aseiad cychwynnol** – lle byddwn yn penderfynu a yw'n debygol y bydd angen cymryd camau rheoleiddio.
- **Canlyniadau a dderbynnir** – lle bydd archwiliwr achos yn ystyried a oes amhariad ar addasrwydd y cydymaith i ymarfer. Ac os byddant yn penderfynu bod hynny'n wir, bydd yr archwiliwr achos yn cynnig camau gweithredu cyfyngol priodol (mesur terfynol). Os nad ydynt yn canfod bod amhariad, mae'n bosibl y byddant yn rhoi rhybudd.
- **Dyfarniad** – lle bo cydymaith yn gwrthod canlyniad a gynigir gan archwiliwr achos, neu pan fydd archwilydd achos fel arall yn cyfeirio achos at wrandawriad, er enghraifft os na allant ddod i benderfyniad ar amhariad, bydd tribiwnlys yn ystyried yr achos. Os bydd tribiwnlys yn canfod bod amhariad ar addasrwydd y cydymaith i ymarfer, gall osod camau cyfyngu priodol (mesur terfynol). Os nad ydynt yn canfod bod amhariad, mae'n bosibl y byddant yn rhoi rhybudd.
- **Adolygu'r mesur terfynol** – pan fydd archwiliwr achos neu dribiwnlys yn ystyried a oes amhariad ar addasrwydd y cydymaith i ymarfer ac yn penderfynu a oes angen mesur o hyd i ddiogelu'r cyhoedd, ac os felly, beth ddylai'r mesur hwnnw fod.

Yn ystod achos addasrwydd i ymarfer, byddwn hefyd yn sefydlu ac yn gweithredu proses ar gyfer cyfeirio pryder at dribiwnlys mesurau interim ac i ystyried a oes angen cymryd camau rheoleiddio interim (mesur interim).

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol yn trefnu ac yn gweithredu tribiwnlysoedd ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn cynnal gwrandawriadau ar gyfer meddygon ac mae ei benderfyniadau'n annibynnol, gan weithredu ar wahân i rôl ymchwilio'r GMC.

## Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn ymgynghori ynghylch ein [rheolau arfaethedig ar gyfer addasrwydd i ymarfer](#). Mae'r rhain yn cynnwys:

- aseiad cychwynnol
- mesurau interim ac adolygiadau o fesurau interim

- 
- canlyniadau a dderbynnir
  - dyfarniad
  - adolygiadau mesur terfynol.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar yr egwyddorion canlynol a fydd yn llywio cynnwys y canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau – bydd hyn yn cael ei gyflwyno ar gyfer cymdeithion anesthesia, cymdeithion meddygol, a **meddygon** unwaith y byddwn yn dechrau rheoleiddio cymdeithion.

- [Canllawiau egwyddorion ar gyfer amhariad](#). Mae ond yn bosibl canfod amhariad pan asesir bod cydymaith anesthesia, cydymaith meddygol neu feddyg yn peri risg gyfredol a pharhaus i un o fwy nag un rhan o ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r egwyddorion yn amlinellu'r dull gweithredu a'r ffactorau allweddol sy'n berthnasol i asesu'r risg hon.
- [Egwyddorion i lywio canllawiau ar gamau cyfyngol](#). Rhoddir camau cyfyngol ar waith i fynd i'r afael â'r risg gyfredol a pharhaus i ddiogelwch y cyhoedd a achosir gan gydymaith anesthesia, cydymaith meddygol neu feddyg. Mae'r egwyddorion yn amlinellu'r dull gweithredu a'r ffactorau allweddol sy'n berthnasol wrth benderfynu pa fath o gamau cyfyngol sy'n ymateb rheoleiddio cymesur.
- [Egwyddorion i lywio canllawiau ar rybuddion](#). Mae rhybuddion yn cael eu rhoi ar waith fel ymateb ffurfiol i ddangos i gymdeithion anesthesia, cymdeithion meddygol neu feddygon bod unrhyw ymddygiad penodol neu berfformiad gwael yn gwyro oddi wrth y safonau proffesiynol a ddisgwylir ac na ddylid ailadrodd hynny. Mae'r egwyddorion yn amlinellu'r dull gweithredu a'r ffactorau allweddol sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw rhybudd yn ymateb rheoleiddio cymesur.

Rydym yn croesawu sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein rheolau arfaethedig a'r egwyddorion a fydd yn sail i gynnwys y canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau, ond byddem yn croesawu'n arbennig sylwadau ar y canlynol:

- ein rheolau ar gyfer sut byddwn yn arfer ein pwerau statudol ac yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol a nodir yn y Gorchymyn mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer ac i ba raddau y mae ein prosesau'n glir, yn deg ac yn gymesur
- ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer penderfyniadau canlyniadau a dderbynnir i'w gwneud gan un archwilydd achos – a ddewisir o blith tîm o archwilydd achos
- ein hegwyddorion arfaethedig a fydd yn sail i gynnwys ein canllawiau gwneud penderfyniadau, y byddwn yn eu cyflwyno ar gyfer cymdeithion anesthesia, cymdeithion meddygol, a meddygon pan fyddwn yn dechrau rheoleiddio cymdeithion.

Cyn adolygu ein rheolau a'n hegwyddorion penderfynu arfaethedig, sydd i'w gweld drwy glicio ar y dolenni uchod, rydym yn eich annog i ddarllen Rhan 5 y ddogfen ymgynghori yn gyntaf, sy'n rhoi rhagor o fanylion am bwrpas a chwmpas y dogfennau hyn.

---

## Asesiad cychwynnol (rheolau 3 – 5)

### Beth mae'r rheolau'n ei gynnwys

Byddwn yn agor asesiad cychwynnol pan fydd cwestiwn yn codi ynghylch a oes amhariad ar addasrwydd cydymaith i ymarfer. Defnyddir asesiad cychwynnol i benderfynu a yw'n debygol y bydd angen cymryd camau rheoleiddio i ddiogelu'r cyhoedd.

Mae ein rheolau asesiad cychwynnol yn disgrifio'r canlynol:

- ein pwerau i ymchwilio i bryderon i benderfynu a yw'n debygol y bydd angen camau rheoleiddiol
- y camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd ar ddiwedd asesiad cychwynnol
- pryd byddwn yn rhoi gwybod i unigolion am benderfyniadau a wneir yn ystod y broses hon.

### Ein pwerau ymchwilio (rheolau 3 a 5) a'r camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd ar ôl cwblhau asesiad cychwynnol

Pan fyddwn o'r farn bod cwestiwn wedi codi ynghylch amhariad posibl ar addasrwydd cydymaith i ymarfer, byddwn yn cynnal asesiad cychwynnol i ystyried a yw'n debygol bod angen cymryd camau rheoleiddio i ddiogelu'r cyhoedd (cyfeirir at hyn yn ein rheolau fel y 'prawf ar gyfer atgyfeirio'). Mae hyn yn seiliedig ar asesiad o'r risg i ddiogelwch y cyhoedd a nodir y ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth ddod i'r penderfyniad hwn yn ein hegwyddorion, a fydd yn sail i gynnwys ein canllawiau gwneud penderfyniadau.

Pan fyddwn yn penderfynu bod pryder yn bodloni'r prawf ar gyfer atgyfeirio, mae ein rheolau'n datgan bod yn rhaid i ni gyfeirio'r pryder at archwilydd achos i'w ystyried ymhellach. Efallai y byddwn yn aros am ganlyniad ymchwiliad gan gorff arall cyn penderfynu a fodlonwyd y prawf ar gyfer atgyfeirio. Pan fyddwn yn penderfynu na fodlonwyd y prawf, byddwn yn diystyru'r pryder.

Er mwyn llywio ein penderfyniadau, mae'r rheolau'n ein galluogi i gynnal ymchwiliadau ar unrhyw gam yn ein hachos addasrwydd i ymarfer. Fel rhan o'n hymchwiliadau, ac i lywio ein penderfyniadau, mae'n bosibl y byddwn hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i'r cydymaith i gael asesiad perthnasol o'i berfformiad, ei iechyd neu ei wybodaeth o'r Saesneg. Mae'r rheolau'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i ni ei rhoi i gydymaith wrth roi cyfarwyddyd o'r fath. Yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn, maent hefyd yn nodi'r camau nesaf posibl y byddwn yn eu cymryd pan na fydd cydymaith yn cydymffurfio â chyfarwyddyd i gael asesiad.

Mewn achosion o'r fath, ac wrth ystyried a fodlonwyd y prawf atgyfeirio ai peidio, gallwn ddod i gasgliad niweidiol (sef casgliad sy'n seiliedig ar fethiant unigolyn i wneud rhywbeth). Fel arall, efallai y byddwn yn ceisio tynnu'r cydymaith oddi ar y gofrestr o dan ddarpariaethau erthygl 9 o'r Gorchymyn.

Mae'r rheolau'n gosod darpariaethau tebyg pan nad yw unigolyn cyswllt yn cydymffurfio â gofyniad i roi gwybodaeth neu gyflwyno dogfennau. Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn yn eithrio deunydd a gynhyrchwyd yn benodol naill ai at ddibenion datblygiad proffesiynol cydymaith neu at ddibenion eu myfyrdod personol.

---

Mae'r Gorchymyn yn sefydlu y gellir canfod bod amhariad ar y cydymaith am un o'r rhesymau canlynol:

- eu hanallu i ddarparu gofal o safon ddigonol
- camymddwyn.

Nid yw'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaeth i ganfod bod amhariad iechyd ar gydymaith, sy'n bodoli yn ein fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer meddygon. Fodd bynnag, bydd angen i ni ystyried effaith cyflwr iechyd cydymaith wrth benderfynu a oes amhariad arno ai peidio am y naill reswm a nodir uchod neu'r llall.

Mae'n bwysig i ni ein bod ni'n ymdrin mewn modd tosturiol ag achosion lle mae iechyd cydymaith yn ffactor, fel rydym yn ei wneud gyda meddygon ar hyn o bryd. Ein nod fydd ceisio cynllunio ein prosesau i fod mor sensitif â phosibl i'r rheini sydd â phryderon iechyd er gwaethaf y ffaith nad yw'r Gorchymyn yn cyfeirio'n benodol at iechyd.

## Ein gofyniad i roi gwybod i unigolion am benderfyniadau a wnaed yn ystod Asesiad Cychwynnol (rheol 4)

Mae Rheol 4 yn gwneud darpariaeth i ni hysbysu cymdeithion ein bod yn cynnal asesiad cychwynnol ynghylch pryder a fynegwyd amdanynt. Cyn gwneud penderfyniad i gyfeirio pryder at archwiliwr achos, byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith pam ein bod o'r farn y gellid bodloni'r prawf atgyfeirio. Rhaid i ni ganiatáu 28 diwrnod i'r cydymaith wneud sylwadau ar hyn cyn penderfynu a ddylid cyfeirio'r pryder at archwilydd achos. Rhaid i ni hefyd roi gwybod iddynt am eu hawl i gael cynrychiolaeth. Byddwn wedyn yn rhoi gwybod i gydymaith am ein penderfyniad cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad hwnnw.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sawl sy'n mynegi'r pryder am gynnydd ein hasesiad cychwynnol ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddarparu gwybodaeth am y pryder, yn ogystal â rhoi gwybod iddynt beth yw'r canlyniad.

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

O dan ein fframwaith presennol a nodir yn y Ddeddf Feddygol, rhaid cyfeirio unrhyw achos sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer ymchwiliad at archwilydd achos i benderfynu a yw'n debygol y bydd angen cymryd camau rheoleiddio neu a ellir cau'r achos.

Gall hyn arwain at oedi cyn datrys rhai achosion, gan roi straen diangen ar y meddygon dan sylw a gall godi disgwyliadau ffug ar gyfer y rhai a fynegodd y pryder i ni. Credwn y bydd y disgresiwn cynyddol a ddarperir gan y Gorchymyn yn ein galluogi i ymchwilio'n gymesur i achosion a chymryd camau cyflym i ddiogelu'r cyhoedd neu i gau achosion lle nad oes angen cymryd camau rheoleiddio.

---

## Mesurau interim ac adolygiadau o fesurau interim (rheolau 6 – 16)

### Beth mae'r rheolau'n ei gynnwys

Mae mesur interim yn gyfyngiad dros dro ar gofrestrriad sy'n berthnasol i gofnod cydymaith yn y rhan berthnasol o'r gofrestr. Byddwn yn cyfeirio cydymaith at Dribiwnlys Mesurau Interim os ydym o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd neu os yw hynny er budd y cyhoedd neu'r cydymaith.

Mae mesur interim yn caniatáu i ni gymryd camau ar unwaith i ddiogelu'r cyhoedd wrth i ni gwblhau ein hachos addasrwydd i ymarfer. Mae dau fath o fesurau interim;

- amodau – sy'n gosod cyfyngiadau ar ymarfer yr unigolyn a/neu a allai ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud rhywbeth
- atal dros dro – sy'n atal yr unigolyn rhag ymarfer am gyfnod penodol.

Mae'r rheolau hyn yn nodi fframwaith lefel uchel ar gyfer penderfynu a oes angen mesur interim. Mae ein rheolau hefyd yn cynnig fframwaith hyblyg ar gyfer adolygu'r mesurau hyn. Mae hyn yn galluogi'r archwilydd achos i adolygu'r mesurau ar y papurau (lle gwneir penderfyniadau ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig) heb fod angen gwrandawriad lle mae'r cydymaith yn cydsynio, neu drwy wrandawriad tribiwnlys pan fydd y cydymaith yn gofyn am un neu lle byddwn yn penderfynu bod angen gwrandawriad.

Mae'r rheolau'n cynnwys y canlynol:

- y weithdrefn ar gyfer cyfeirio achos at Dribiwnlys Mesurau Interim (IMT)
- sut bydd y Tribiwnlys Mesurau Interim yn gweithredu
- ein gweithdrefn ar gyfer adolygu mesurau interim
- ein gweithdrefn ar gyfer rhoi gwybod i unigolion am benderfyniad y Tribiwnlys Mesurau Interim.

### Y weithdrefn ar gyfer cyfeirio achos at y Tribiwnlys Mesurau Interim (rheol 6)

Byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith am y canlynol:

- atgyfeiriad at y Tribiwnlys Mesurau Interim
- ein rhesymau dros atgyfeirio
- unrhyw dystiolaeth sy'n berthnasol i ystyried a ddylid gosod mesur interim.

---

Mae'r rheolau hefyd yn caniatáu i ni dynnu atgyfeiriad i'r tribiwnlys yn ôl pan fyddwn o'r farn nad oes angen mesur interim mwyach.

## Y weithdrefn ar gyfer Tribiwnlys Mesurau Interim (rheol 7)

Mae Rheol 7 yn disgrifio'r weithdrefn ar gyfer Tribiwnlys Mesurau Interim. Rhaid i'r tribiwnlys ystyried tystiolaeth a gyflwynir gan y partïon a rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau cyn gwneud ei benderfyniad.

Bydd tystiolaeth lafar ond yn cael ei rhoi os yw'r tribiwnlys o'r farn bod angen hynny i ddod i benderfyniad. Os gosodir mesur interim, bydd yn dod i rym ar unwaith a byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith am y penderfyniad hwn. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'w cyflogwr, i gorff rheoleiddio arall (os yw'n briodol), ac i'r sawl a fynegodd y pryder yn y lle cyntaf.

## Adolygu mesurau interim (rheol 8 - 16)

Gallwn ddechrau adolygu mesur interim ar unrhyw adeg cyn iddo ddod i ben. O dan delerau'r Gorchymyn, rhaid i ni wneud hyn cyn pen chwe mis o'r adeg y daeth y mesur interim i rym neu o ddyddiad unrhyw adolygiad blaenorol.

Gall cydymaith hefyd ofyn am adolygiad. Os byddwn yn gwrthod y cais hwn, rhaid i ni roi gwybod i'r cydymaith am ein rhesymau dros wneud hynny.

Pan fyddwn yn dechrau adolygu mesur interim, rhaid i ni ei gyfeirio at naill ai archwilydd achos neu Dribiwnlys Mesurau Interim. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith am yr atgyfeiriad a'n rhesymau dros wneud hynny, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth sy'n berthnasol i'r materion sy'n cael eu hadolygu.

Pan gyfeirir yr achos at archwiliwr achos, bydd yr archwilydd achos yn ystyried yn gyntaf a oes angen mesur interim o hyd, gan ystyried gwybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gennym ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig (sylwadau) gan y cydymaith. Os nad oes angen mesur interim mwyach, rhaid i'r archwiliwr achos ddiddymu'r mesur presennol ac yna byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith am y penderfyniad hwn.

Os bydd angen mesur dros dro o hyd, bydd yr archwilydd achos yn penderfynu a ddylid ymestyn, amrywio neu ddiddymu'r mesur dros dro presennol, a chael mesur gwahanol yn ei le. Yna, byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith am gynnig yr archwiliwr achos.

Gall y cydymaith naill ai dderbyn y cynnig neu ofyn am wrandawriad. Os nad yw'r cydymaith yn ymateb i'r cynnig nac yn gofyn am wrandawriad o fewn cyfnod penodol, gall yr archwilydd achos osod y mesur Interim neu gall ofyn i ni gyfeirio'r mater at Dribiwnlys Mesurau Interim, a fydd wedyn yn adolygu'r achos gan ddefnyddio'r weithdrefn a ddisgrifir uchod ar gyfer mesurau interim (rheol 16).

Gall yr archwiliwr achos hefyd ganiatáu i fesur presennol barhau wrth ystyried adolygiad. Gellid defnyddio hyn er enghraifft, lle mae pryder bod y cydymaith wedi methu â chydymffurfio â mesur presennol ond ar ôl ystyried ymhellach, bod yr archwilydd achos yn penderfynu nad oes angen newid y mesur presennol.

---

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

Mae'r broses a'r prawf ar gyfer gosod ac adolygu mesurau interim yn debyg i'r dull rydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer meddygon o dan y Ddeddf Feddygol. Y prif wahaniaeth o dan y Ddeddf Feddygol yw bod yn rhaid i'r Tribiwnlys Gorchmynion Interim (IOT) neu gadeirydd y tribiwnlys yn gweithredu ar ei ben ei hun adolygu mesurau interim a gyflawnir heb wrandawriad gael.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth i'r Rheoleiddiwr gynnal adolygiadau o fesurau interim ac rydym yn cynnig dirprwyo'r penderfyniad hwn naill ai i archwilydd achos i gynnal adolygiadau neu i dribiwnlys i gynnal gwrandawriad. Credwn y bydd hyn yn darparu mecanwaith mwy cymesur ar gyfer penderfynu ar adolygiadau mesurau interim. Fel sy'n wir am feddygon ar hyn o bryd, bydd cymdeithion yn cadw'r hawl i gael gwrandawriad i ystyried eu hadolygiad, a fydd yn cael ei gynnal gan Dribiwnlys Mesurau Interim.

## Rheolau canlyniadau a dderbynnir (rheolau 17 – 25)

Mae ein rheolau canlyniadau a dderbynnir yn nodi fframwaith lefel uchel ar gyfer penderfynu sut byddwn yn ymdrin â phryderon a gyfeirir at archwilydd achos pan fodlonir y prawf atgyfeirio.

Ein bwriad yw cyflwyno proses glir, deg a chymesur sy'n canolbwyntio ar ddod i gytundeb â chymdeithion. A phan fo hynny'n bosibl, un sy'n canolbwyntio ar nodi'r camau cyfyngol (amodau, atal neu ddiswyddo) y byddwn yn eu cymryd pan fydd cydymaith yn peri risg gyfredol a pharhaus i ddiogelwch y cyhoedd – sy'n golygu bod amhariad ar eu haddasrwydd i ymarfer.

Gallai'r broses canlyniadau a dderbynnir ein galluogi i gymryd camau cyflymach i ddiogelu'r cyhoedd a lleihau nifer y gwrandawriadau tribiwnlys y mae'n rhaid i ni eu cynnal.

O ystyried natur wrthwynebus gwrandawriadau, bydd hyn yn lleihau'r straen posibl ar gymdeithion, achwynwyr a thystion a fyddai angen darparu tystiolaeth mewn gwrandawriad fel arall. Bydd llai o wrandawriadau tribiwnlys hefyd yn lleihau'r effaith ar gyflogwyr y gwasanaeth iechyd o orfod rhyddhau tystion sy'n aelodau o staff i fynychu.

Mae'r Gorchymyn yn rhoi pwerau i archwilydd achos wneud penderfyniadau ynghylch canlyniadau a dderbynnir. Rydym yn cynnig mai un archwiliwr achos a ddewisir o blith tîm o archwilwyr achos fydd yn penderfynu ar ganlyniadau a dderbynnir – gydag achosion yn cael eu neilltuo i'r archwiliwr achos sydd ar gael nesaf.

Caiff archwilwyr achos eu dewis yn ofalus, ac maent yn cael hyfforddiant a chyfnod cynefino trylwyr i'w cefnogi i wneud penderfyniadau o safon ym mhob math o achos. Byddant yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant parhaus a thrafodaethau ynghylch eu penderfyniadau. Bydd gennym fframwaith sicrhau trylwyr, gan gynnwys archwilio mewnol ac allanol, i sicrhau ansawdd a chysondeb penderfyniadau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r penderfyniadau hyn ynghyd â'n rhesymeg sylfaenol (ac eithrio unrhyw fanylion cyfrinachol).

Mae'r rheolau'n disgrifio sut rydym yn bwriadu cyflawni'r broses hon, ac maent yn:

- ei gwneud yn ofynnol i archwiliwr achos ystyried gwybodaeth sy'n berthnasol i'w hystyriaeth o'r achos, gan gynnwys sylwadau ysgrifenedig gan y cydymaith

- 
- rhoi'r gallu i archwiliwr achos ofyn am ragor o wybodaeth lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol
  - ei gwneud yn ofynnol i archwiliwr achos ystyried a oes amhariad ar addasrwydd y cydymaith i ymarfer.
  - nodi'r camau y gall archwilydd achos eu cymryd wrth benderfynu nad oes amhariad ar addasrwydd cydymaith i ymarfer
  - nodi'r camau y gall archwilydd achos eu cymryd pan fyddant yn penderfynu bod amhariad ar addasrwydd cydymaith i ymarfer
  - rhoi eglurder ynghylch pryd y daw mesur neu rybudd terfynol i rym
  - ei gwneud yn ofynnol i archwilydd achos roi gwybod i gymdeithion am benderfyniadau a wneir yn ystod y broses canlyniadau a dderbynnir.

Lle bo'n briodol gwneud hynny, rydym yn ymhelaethu ar y meysydd hyn yn yr adrannau canlynol.

Cefnogir ein rheolau gan ein hegwyddorion a fydd yn llywio cynnwys ein canllawiau gwneud penderfyniadau. Bydd hyn yn llywio penderfyniadau'r archwilydd achos ynghylch y canlynol:

- amhariad
- pryd i roi rhybudd (pan nad oes amhariad ar addasrwydd cydymaith i ymarfer)
- pa fesur terfynol i'w gynnig (pan fo amhariad ar addasrwydd cydymaith i ymarfer).

## **Proses canlyniadau a dderbynnir – pan fydd archwiliwr achos o'r farn bod amhariad ar y cydymaith (rheolau 19-20, 22 a 25), Pryd y daw mesurau i rym (rheol 21)**

Ar ôl cael eu cyfeirio at y cam canlyniad a dderbynnir, mae'r rheolau'n ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd achos ystyried gwybodaeth sy'n berthnasol i'r achos. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth a ddarparwyd gan y sawl a fynegodd y pryder i ddechrau, yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd gan y cydymaith, a bydd y ddau ohonynt wedi cael cyfle i roi eu safbwynt a'u mewnbwn yn ystod y cam asesu cychwynnol. Bydd yr archwilydd achos wedyn yn penderfynu a oes amhariad ar addasrwydd y cydymaith i ymarfer. Lle bo'n briodol i wneud hynny, gall yr archwilydd achos hefyd gyfeirio'r mater at dribiwnlys.

Os bydd archwilydd achos yn penderfynu nad oes amhariad ar addasrwydd cydymaith i ymarfer, caiff roi rhybudd iddynt neu beidio â chymryd unrhyw gamau pellach. Mewn achosion lle mae'r archwilydd achos yn penderfynu gosod rhybudd, bydd yn dod i rym pan fydd y cydymaith wedi cael ei hysbysu am y penderfyniad hwn.

Os bydd yr archwilydd achos yn penderfynu bod amhariad ar addasrwydd cydymaith i ymarfer, gall gynnig mesur terfynol priodol. Cyfyngiad y gall archwiliwr achos neu dribiwnlys ei osod yw mesur terfynol – a bydd yn berthnasol i gofnod cydymaith ar y gofrestr.

Mae'r mesurau terfynol yn cynnwys amodau, atal dros dro neu ddileu eu henw oddi ar y gofrestr; gallant gyfyngu ar ymarfer cymdeithion, eu hatal rhag ymarfer am gyfnod neu ddileu eu hawl i

---

ymarfer yn llwyr.

Pan fydd archwilydd achos yn cynnig canlyniad, byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith am y canlynol:

- canfyddiadau'r archwilydd achos ynghylch yr achos
- eu penderfyniad ar yr amhariad
- manylion y mesur terfynol arfaethedig, gan gynnwys am ba hyd y bydd yn berthnasol.

At ei gilydd, cyfeirir at y tri phwynt hyn fel 'telerau'r canlyniad arfaethedig' (cyfeirir atynt hefyd fel 'telerau' yn y ddogfen hon), ac maent yn cael eu llywio gan amgylchiadau unigol pob achos. O'r herwydd, nid yw'r penderfyniad ar amhariad na'r mesur arfaethedig yn agored i drafodaeth. Bydd gan y cydymaith 28 diwrnod i dderbyn neu wrthod y telerau arfaethedig.

Pan ddaw'r archwilydd achos ar draws gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'w ystyriaeth o'r achos, gellir tynnu telerau'r canlyniad arfaethedig yn ôl.

Os tynnwyd yr achos yn ôl, gall yr archwilydd achos ailystyried yr achos a chymryd unrhyw un o'r camau a nodir yn y broses canlyniadau a dderbynnir; mae hyn yn cynnwys dod i benderfyniad ar amhariad, gosod rhybudd, amlinellu canlyniad, neu gyfeirio achos at dribiwnlys.

O dan y Gorchymyn, rhaid i fesur dileu terfynol ddod i rym cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei osod. Daw'r mesur terfynol o amodau neu atal dros dro i rym o'r adeg y byddwn yn cyflwyno hysbysiad o benderfyniad yr archwilydd achos i orfodi hynny. Bydd yr holl fesurau terfynol yn aros mewn grym yn ystod y cyfnod apelio ac unrhyw broses apel ddilynol. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y diogelir y cyhoedd tra bo apel ynghylch penderfyniad yn cael ei chynnal a'i chwblhau.

Pan fydd cydymaith yn gwrthod telerau'r canlyniad arfaethedig, bydd yr archwilydd achos yn cyfeirio'r achos at dribiwnlys i'w ystyried a dod i benderfyniad yn ei gylch. Pwrpas hyn yw sicrhau bod gan gydymaith hawl i wrandawriad llawn os byddai'n well ganddynt i'w hachos gael ei gwblhau drwy'r broses hon.

Os nad yw unigolyn yn rhoi 'ymateb rhesymegol' drwy dderbyn neu wrthod y canlyniad arfaethedig o fewn 28 diwrnod, gall yr archwilydd achos osod y mesur terfynol a gynigiwyd o dan y telerau neu gyfeirio'r achos at dribiwnlys.

Byddwn yn datblygu canllawiau i gefnogi archwilwyr achos i wneud penderfyniadau teg a chyson ynghylch sut i arfer y disgrisiwn hwn. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch beth yw 'ymateb rhesymegol'. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd ymateb yn 'resymegol' os yw'r cydymaith yn datgan yn glir eu bod naill ai'n derbyn telerau llawn y cynnig, neu nad ydynt yn derbyn hynny.

Gallai archwilydd achos ymestyn y cyfnod y mae'n rhaid i gydymaith ymateb i ganlyniad arfaethedig os yw'n credu ei bod yn rhesymol gwneud hynny.

## Hysbysiadau o'n penderfyniadau (rheolau 21, 23 a 24)

Mae'r rheolau'n nodi pryd byddwn yn rhoi gwybod i unigolion am ein penderfyniadau. Pan fydd archwilydd achos yn cytuno neu'n gosod rhybudd neu fesur terfynol, mae'r rheolau'n ei gwneud

---

yn ofynnol i ni hysbysu'r cydymaith a nifer o drydydd partiön am ein penderfyniad.

Rhaid i ni roi gwybod i drydydd partiön gan gynnwys yr achwynydd (os yw'n berthnasol), cyflogwr y cydymaith (os yw'n hysbys), ac unrhyw gorff rheoleiddio arall y mae'r cydymaith wedi cofrestru â nhw (os yw'n hysbys).

Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'r cymdeithion bod hawl ganddynt i apelio yn erbyn y penderfyniad (gweler Rhan 6 am ragor o fanylion am ein fframwaith apeliadau) ac y gallwn adolygu penderfyniad yr archwilydd achos lle bo hynny'n briodol (gweler Rhan 6 am ragor o fanylion am y fframwaith adolygu).

---

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

Er nad yw ein deddfwriaeth bresennol ar gyfer meddygon yn cyfeirio at archwilwyr achos ar hyn o bryd, mae ein rheolau presennol, a gyflwynwyd yn 2004, yn ei gwneud yn ofynnol i ddau archwilydd achos wneud penderfyniad ar ddiwedd ymchwiliad ynghylch addasrwydd meddyg i ymarfer. Ni fydd y cyfyngiad hwn yn berthnasol o dan ein fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Mae ein dull gweithredu arfaethedig yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ddatblygu model gwneud penderfyniadau mwy modern a syml i adlewyrchu sut y gwneir penderfyniadau am faterion sy'n peri pryder sylweddol i unigolion a'r cyhoedd gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau unigol mewn systemau dyfarnu modern gan gynnwys barnwyr, crwneriaid, ombwdsmyrn a dyfarnwyr rheoleiddio.

O dan y Gorchymyn, bydd mwy o bwerau gan archwilwyr achos hefyd i wneud penderfyniadau a bydd modd iddynt benderfynu a oes amhariad ar gydymaith (canfyddiad o amhariad), a dim ond ar gyfer meddygon y gall tribiwnlysoedd wneud hyn ar hyn o bryd. Ar ôl canfod bod amhariad, bydd modd iddynt gynnig ystod ehangach o gamau cyfyngol ar gymdeithion na'r hyn a ganiateir ar gyfer meddygon o dan ein fframwaith deddfwriaethol ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, daw sancsiynau a osodir ar gofrestrriad meddyg i rym ar ôl i'r cyfnod apelio dilynol ddod i ben. Os gwneir apêl, bydd y sancsiwn ond yn dod i rym os nad yw'r apêl honno'n llwyddiannus. Er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran diogelwch y cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn, gall tribiwnlysoedd osod gorchymyn amodau ar unwaith (sy'n gorchymyn fod meddyg yn rhoi'r gorau i wneud rhai pethau, gweithio dan oruchwyliaeth yn unig neu ailhyfforddi) neu atal dros dro – tra bo'r apêl yn cael ei hystyried a'i chwblhau.

Nid yw'r Gorchymyn yn darparu'r un fframwaith ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Nid yw'n darparu pwerau i osod gorchymynion ar unwaith i reoli risgiau diogelwch y cyhoedd tra bo apêl yn cael ei hystyried a'i chwblhau. Felly, o dan y Gorchymyn, rhaid i fesur dileu terfynol ddod i rym cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei osod. Ar gyfer mesur terfynol o amodau neu atal dros dro, rydym yn cynnig y dylai'r mesurau hyn ddod i rym ar unwaith ar ôl cyflwyno hysbysiad a pharhau mewn grym yn ystod y cyfnod apelio ac unrhyw apêl wedi hynny, neu hyd nes y daw'r mesur i ben fel arall.

## Rheolau dyfarnu (rheolau 26 – 55)

Defnyddir y broses ddyfarnu i sicrhau canlyniadau mewn achosion nad yw'r archwilwyr achos wedi eu datrys drwy'r broses canlyniadau a dderbynnir.

Bydd yr ystod o gamau rheoleiddio sydd ar gael i dribiwnlys yr un fath ag ar gyfer archwilwyr achos; byddant yn gallu gosod rhybudd neu roi camau cyfyngu ar waith drwy gyflwyno amodau, atal dros dro neu ddileu enw oddi ar y gofrestr.

---

Defnyddir dyfarniadau hefyd i wneud y canlynol:

- penderfynu a oes angen mesur interim – a phan fydd mesur interim ar waith, defnyddir dyfarniad i gynnal adolygiad dan amgylchiadau penodol
- adolygu mesur terfynol presennol o amodau neu ataliad dros dro mewn rhai amgylchiadau
- penderfynu, mewn achosion lle dilëwyd enw cydymaith oddi ar y gofrestr oherwydd mesur terfynol a'i fod bellach yn ceisio ailymuno – os yw'r cydymaith yn addas i ymarfer.

Y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol fydd yn rhedeg y broses ddyfarnu ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.

Mae ein rheolau dyfarnu'n nodi ein fframwaith arfaethedig ar gyfer rheoli achosion a gyfeiriwyd at dribiwnlys. Mae'r rheolau'n cynnwys y broses ar gyfer cynnal gwrandawiadau a chyfleu canlyniadau i gymdeithion ac unigolion trydydd parti fel y bo'n briodol. Ein bwriad yw sefydlu proses ddyfarnu deg, gyfiawn ac effeithlon ar gyfer cymdeithion sy'n diogelu'r cyhoedd.

Pan gyfeirir achos at dribiwnlys, mae'r model dyfarnu'n galluogi'r canlynol:

- Rheolwr achos (unigolyn a benodir gan y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol er mwyn rheoli achosion a gyfeirir at dribiwnlys ar gyfer gwrandawriad) i roi cyfarwyddiadau i'r partïon (y cydymaith a'r GMC) ynghylch y dull y byddwn yn ei ddefnyddio i baratoi'r achos ar gyfer gwrandawriad.
- Unrhyw ddadleuon cyfreithiol rhagarweiniol a gaiff eu cyflwyno, fel cais gadw tyst yn ddiennw neu mewn perthynas â pha mor dderbyniol yw tystiolaeth. Rheolwr achos fydd yn penderfynu ar y dadleuon hyn cyn y gwrandawriad neu bydd tribiwnlys yn eu hystyried mewn gwrandawriad rhagarweiniol.
- Caiff tribiwnlys ei gynnull i benderfynu ar unrhyw ffeithiau y mae anghytundeb yn eu cylch rhwng y partïon ac i benderfynu a oes amhariad ar addasrwydd y cydymaith i ymarfer. Os bydd y tribiwnlys yn ystyried nad oes amhariad ar addasrwydd cydymaith i ymarfer, gall roi rhybudd i'r cydymaith. Os yw'n canfod bod amhariad ar addasrwydd y cydymaith i ymarfer, gall y tribiwnlys osod mesur o amodau terfynol, atal dros dro neu ddileu eu henw oddi ar y gofrestr.

Nod y rheolau dyfarnu yw cyflawni'r model hwn drwy wneud y canlynol:

- Disgrifio'r dull o reoli achosion a nodi'r canlyniadau pan na fydd parti i'r achos yn cydymffurfio â'r rheolau dyfarnu a/neu gyfarwyddiadau a roddir gan reolwr achos neu dribiwnlys.
- Nodi y gallwn grwpio honiadau o amhariad ar addasrwydd i ymarfer yn erbyn un cydymaith neu grwpio achosion nifer o gymdeithion – lle mae'n briodol gwneud hynny.

- 
- Nodi y gellid cynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb neu gan ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda neu sain-gynadledda.
  - Cadarnhau bod yn rhaid i'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol gyflwyno rhybudd o wrandawriad ar gyfer pob gwrandawriad (a nodi'r amserlen ar gyfer ei anfon a'r hyn y mae'n rhaid ei nodi mewn hysbysiad o gynnwys gwrandawriad).
  - Caniatáu i reolwyr achos ohirio gwrandawriad, ac i dribiwnlysoedd ohirio gwrandawriad.
  - Nodi hawl cydymaith i gael ei gynrychioli mewn gwrandawriad, gan roi'r gallu i'r tribiwnlys fwrw ymlaen yn absenoldeb cydymaith a/neu ei gynrychiolydd os bodlonnir meini prawf penodol.
  - Caniatáu i reolwyr achos a thribiwnlysoedd benderfynu ar ddadleuon cyfreithiol rhagarweiniol cyn gwrandawriad.
  - Cadarnhau bod rhaid cynnal gwrandawiadau'n gyhoeddus oni bai fod y tribiwnlys yn ystyried mesur interim neu iechyd cydymaith – neu pan fydd rheolwr achos neu dribiwnlys yn penderfynu bod amgylchiadau unigol yr achos yn drech na'r budd i'r cyhoedd o gynnal y gwrandawriad yn gyhoeddus.
  - Nodi'r ymagwedd o ran derbyn tystiolaeth a'r ymagwedd tuag at gefnogi tystion sy'n agored i niwed i ddarparu tystiolaeth mewn gwrandawriad.
  - Disgrifio'r weithdrefn y bydd tribiwnlys yn ei dilyn i wneud penderfyniad am yr achos.
  - Mynnu bod y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol yn rhoi gwybod i'r cydymaith a'r GMC ar wahanol adegau yn y broses ddyfarnu – gan ofyn am sylwadau gan y partion hyn ar y camau a nodir yn y Gorchymyn (fel y disgrifir yn ein rheolau).

Mae'r rheolau dyfarnu hefyd yn nodi'r weithdrefn y bydd tribiwnlys yn ei dilyn wrth benderfynu a oes amhariad ar addasrwydd ymgeisydd i ymarfer at ddiben ailymuno â'r gofrestr. Mae hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau lle tynnwyd enw'r ymgeisydd oddi ar y gofrestr oherwydd bod archwiliwr achos neu dribiwnlys wedi gosod mesur dileu terfynol.

Bydd canllawiau hefyd i gefnogi tribiwnlysoedd i wneud eu penderfyniadau. Nodir ein hegwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau a fydd yn sail i gynnwys y canllawiau hyn yn y dogfennau canlynol:

- [Canllawiau egwyddorion ar gyfer amhariadau.](#)
- [Egwyddorion i lywio canllawiau ar gamau cyfyngol.](#)
- [Egwyddorion i lywio canllawiau ar rybuddion.](#)

Rydym yn ymhelaethu ar rai agweddau ar ein trefn ddyfarnu isod.

---

## Cyfarwyddiadau i reolwyr achos (rheol 26)

Rydym yn cynnig y gall rheolwr achos roi cyfarwyddiadau i'r partion ynghylch y dull i'w ddefnyddio wrth baratoi'r achos ar gyfer gwrandawriad. Mae hyn er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli achos mewn ffordd deg a hwylus er mwyn sicrhau bod y gwrandawriad yn rhedeg yn deg ac yn effeithlon. Er y bydd yn aml angen i gyfarwyddiadau rheoli achos ystyried amgylchiadau unigol unrhyw achos, un ffordd arall y gall rheolwyr achos gefnogi'r gwaith o baratoi achosion yn effeithiol yw drwy gyhoeddi cyfarwyddiadau ymarfer safonol. Mae cyfarwyddiadau ymarfer safonol yn gyfarwyddiadau rheoli achos sy'n berthnasol i bob achos neu bob math o achos, er enghraifft, cyfarwyddyd yn ymwneud â pharatoi bwndeli tystiolaeth ar gyfer y gwrandawriad.

## Cefnogi tystion agored i niwed (rheol 38)

Mae'r rheolau'n cynnig yr amgylchiadau lle mae'n rhaid trin tyst fel rhywun sy'n agored i niwed. Maent hefyd yn rhoi disgrisiwn eang i reolwyr achos a thribiwnlysoedd gyfarwyddo y dylid trin tyst fel un sy'n agored i niwed, wrth ystyried buddiannau'r tyst a holl amgylchiadau'r achos. Yn y naill achos a'r llall, gall tyst gadarnhau nad ydynt yn dymuno cael eu trin fel rhywun sy'n agored i niwed.

Byddwn yn rhoi arweiniad ar sut i benderfynu a ddylid trin tyst fel rhywun agored i niwed ac ar y mathau o fesurau y gellir eu rhoi ar waith i'w cefnogi. Er enghraifft, byddwn yn ystyried a yw'r tyst o dan 18 oed pan gynhelir y gwrandawriad, a oes ganddynt anabledd meddyliol neu gorfforol, ac a ydynt wedi cwyno am fygythiadau yn y gorffennol.

Bydd ein canllawiau hefyd yn ymdrin â'r mesurau y gellir eu rhoi ar waith ar gyfer tyst agored i niwed – er enghraifft, cyflwyno dolenni fideo neu sgriniau, defnyddio tystiolaeth wedi'i recordio ymlaen llaw, cael cyfieithydd neu gyfryngwr yn y gwrandawriad neu glywed eu tystiolaeth yn breifat.

## Tystiolaeth (rheol 39)

Mae safon y prawf sy'n berthnasol i achosion sydd gerbron tribiwnlys yr un fath ag ar gyfer achosion sifil – yn ôl pwysau tebygolrwydd. Wrth benderfynu ar ffeithiau y mae anghytundeb yn eu cylch, mae hyn yn golygu y bydd angen i dribiwnlys fod yn fodlon ei bod yn fwy tebygol na pheidio fod digwyddiad wedi digwydd. Mewn geiriau eraill, mae angen i'r tebygolrwydd ei fod wedi digwydd fod yn fwy na 50%.

Gall tribiwnlys dderbyn unrhyw dystiolaeth y mae'n ei hystyried yn deg ac yn berthnasol i'r achos ger eu bron. Pan fydd cydymaith wedi cyflawni trosedd, byddant yn trin tystysgrif euogfarn fel dystiolaeth bendant eu bod wedi cyflawni'r drosedd.

Yn yr un modd, byddant hefyd yn trin tystysgrif penderfyniad gan gorff rheoleiddio (sy'n amlinellu penderfyniad a wnaed gan y corff rheoleiddio) fel dystiolaeth bendant o'r ffeithiau a brofwyd mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw. Yn y naill achos neu'r llall, mae hyn yn golygu na fydd angen i ni ailbrofi'r ffeithiau sylfaenol yn y gwrandawriad.

Mae rheol 39 yn cynnig y caiff y brif dystiolaeth ei darparu i'r tribiwnlys ar ffurf datganiad tyst wedi'i lofnodi. Gall y tyst roi ei brif dystiolaeth ar lafar os yw'r ddau barti'n cytuno â hyn, neu os yw rheolwr achos neu dribiwnlys yn penderfynu y dylid ei darparu fel hyn. Pan fydd tyst yn

---

cyflwyno’i brif dystiolaeth yn ysgrifenedig, mae’n dal yn bosibl y bydd yn rhaid iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawriad i ateb cwestiynau y bydd y parti arall, neu’r tribiwnlys, am eu gofyn iddynt. Mae hyn yn cyd-fynd â’r dull arferol o gymryd tystiolaeth gan dystion mewn achosion llys sifil a thribiwnlys.

## Gwrandawriad rhagarweiniol (rheol 41)

Mae’r rheolau’n disgrifio ein gweithdrefn arfaethedig ar gyfer cynnull gwrandawriad rhagarweiniol i benderfynu ar ddadleuon cyfreithiol rhagarweiniol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwrandawrio ar geisiadau sy’n ymwneud â datgelu tystiolaeth, neu pa mor dderbynol yw tystiolaeth, neu a ddylid cynnal gwrandawriad (yn llawn neu’n rhannol) yn breifat.

Mae penderfynu ar y materion hyn ar wahân ac ymlaen llaw yn caniatáu i’r parti’n baratoi ar gyfer y prif wrandawriad gyda mwy o sicrwydd ac mae’n lleihau’r risg o ohiriadau y gellir eu hosgoi.

## Cyfansoddiad a phenodi tribiwnlysoedd (rheolau 50-52)

Bydd tribiwnlysoedd yn cynnwys tri aelod o’r tribiwnlys, gan gynnwys cadeirydd. Mae’r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i dribiwnlysoedd gynnwys o leiaf un unigolyn a oedd naill ai:

- yn arfer bod wedi’u cofrestru fel cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol neu
- sydd â chymhwyster cymeradwy sy’n eu gwneud yn addas i gael eu cofrestru fel cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol neu
- yn aelod cofrestredig ar hyn o bryd (fel meddyg, cydymaith anesthesia neu gydymaith eddygol)

ac un aelod llewg nad yw'n bodloni unrhyw un o'r gofynion hyn.

Mae’r rheolau’n nodi bod yn rhaid i’r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol benodi a chadw rhestr o bobl sy’n gymwys i weithredu fel aelodau tribiwnlysoedd. Wrth wneud hynny, byddant yn pennu ac yn cyhoeddi meini prawf y mae’n rhaid i berson eu bodloni i gael penodiad cychwynnol a pharhaus. Gan fod y Gwasanaeth yn gweithredu ar wahân i swyddogaeth ymchwilio’r GMC, mae’r rheolau’n nodi na all aelod o dribiwnlys ddal unrhyw swydd arall gyda’r GMC, ac eithrio fel aelod o’r Gwasanaeth.

Mae’r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol yn cynnal y rhan fwyaf o wrandawriadau drwy benodi cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol. Lle nad oes gan y cadeirydd gymwysterau cyfreithiol, rhaid i’r Gwasanaeth benodi person â chymwysterau cyfreithiol i gynghori’r tribiwnlys ar gwestiynau cyfreithiol ac ar ddrafftio penderfyniadau.

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â’n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

I raddau helaeth, mae’r broses ddyfarnu ar gyfer cymdeithion yn efelychu’r broses sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer meddygon. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ein nod o sefydlu proses ddyfarnu deg, gyfiawn ac effeithlon ar gyfer cymdeithion, sy’n diogelu’r cyhoedd, rydym wedi defnyddio’r disgrisiwn cynyddol a ganiateir gan y Gorchymyn i ymestyn pwerau o dan y rheolau i

---

reolwyr achos.

Mae hwn yn gam pwysig gan ei fod yn caniatáu i reolwyr achos ddatrys ystod ehangach o faterion cyn y gwrandawriad, lle bo'n briodol iddynt wneud hynny. Y fantais yw bod hyn yn rhoi eglurder i'r partïon a'r tystion ar faterion allweddol ac yn caniatáu i'r gwrandawriad ei hun ganolbwyntio'n llwyr ar y materion sy'n parhau i fod yn destun anghydfod rhwng y cydymaith a'r GMC.

Mae'r gallu i reolwyr achos gyhoeddi cyfarwyddiadau ymarfer hefyd yn newydd. Bwriedir i hyn fod yn gyson â sicrhau bod achosion a gyfeirir ar gyfer gwrandawriad yn cael eu rheoli'n gyflym.

Fel sy'n wir ar hyn o bryd am feddygon, mae rheol 38 yn sefydlu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid trin tyst fel rhywun sy'n agored i niwed er mwyn bod yn gymwys am fesurau arbennig. Fodd bynnag, i gymdeithion, rydym wedi efelychu'r warchodaeth a ddarperir gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, i alluogi mesurau arbennig i fod ar gael i dyst lle mae'r ymddygiad honedig yn erbyn y tyst yn gyfystyr â cham-drin domestig. Mae hyn yn ystyried yr effaith sylweddol y gall y math hwn o ymddygiad ei chael ar dyst, ar eu gallu neu eu parodrwydd i gymryd rhan mewn gwrandawriad ac ar ansawdd ei dystiolaeth.

Ar gyfer meddygon, mae'r Ddeddf Feddygol yn darparu y daw sancsiwn o amodau, ataliad neu ddilead i rym ar ôl i'r cyfnod apelio ddod i ben neu, os cyflwynir apêl, pan benderfynir ar yr apêl honno os nad yw'n llwyddiannus.

Fodd bynnag, o dan bwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Feddygol, gall tribiwnlysoedd gyflwyno gorchymyn o amodau neu ataliadau ar unwaith yn ystod y cyfnod apelio 28 diwrnod, a phan fydd apêl yn cael ei chyflwyno, tra bydd yn cael ei hystyried a'i chwblhau.

Nid yw'r Gorchymyn yn darparu'r un fframwaith ar gyfer cymdeithion. Fel gyda'r mesur dileu terfynol a osodir gan archwiliwr achos, o dan y Gorchymyn, rhaid i fesur dileu terfynol a gyflwynir gan dribiwnlys ddod i rym cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei osod.

Ar gyfer mesur terfynol o amodau neu atal dros dro a gyflwynir gan dribiwnlys, rydym yn cynnig y dylai'r mesurau hyn ddod i rym ar unwaith ar ôl cyflwyno hysbysiad ac aros mewn grym yn ystod y cyfnod apelio ac unrhyw apêl wedi hynny, neu hyd nes y daw'r mesur i ben fel arall. Mae'r rheolau hefyd yn gwneud darpariaeth i dribiwnlys gyfarwyddo y daw mesur terfynol o amodau neu ataliad i rym ar unwaith – os yw'n credu y byddai risg i ddiogelwch y cyhoedd pe na bai'n gwneud hynny.

## Adolygiadau mesur terfynol (rheolau 56 – 67)

Ar ôl gorfodi mesur terfynol, mae'r Gorchymyn yn ein galluogi i gynnal adolygiadau o fesurau ar unrhyw adeg i benderfynu a oes amhariad ar gydymaith, ac os oes, cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r risg bresennol a pharhaus.

Wrth ddrafftio'r rheolau, ein bwriad yw darparu dull teg a chymesur o gynnal adolygiadau – sy'n diogelu'r cyhoedd ac yn cefnogi cymdeithion i ddychwelyd i ymarfer digyfngiad lle nad ydynt yn parhau i beri risg i ddiogelwch y cyhoedd.

Mae ein rheolau'n cynnig fframwaith hyblyg ar gyfer adolygu mesurau. Mae hyn yn galluogi archwilydd achos i adolygu'r mesurau ar y papurau heb fod angen gwrandawriad, neu drwy wrandawriad tribiwnlys pan fydd y cydymaith yn gofyn am un neu lle byddwn yn penderfynu bod angen gwrandawriad.

---

Mae ein fframwaith hefyd yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle mae pryder newydd yn codi am gydymaith sydd eisoes â mesur terfynol ar waith ar eu cyfer. Mae ein fframwaith yn caniatáu ystyried y pryder newydd ochr yn ochr â'r mesur presennol wrth benderfynu pa gamau rheoleiddio sydd eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw risg bresennol a pharhaus.

Mae ein rheolau'n nodi dull gweithredu sy'n adlewyrchu ein prosesau dyfarnu a chanlyniadau derbyniol, fel y nodir uchod. Gyda chefnogaeth ein hegwyddorion gwneud penderfyniadau ([Egwyddorion ar gyfer canllawiau amhariad](#), [Egwyddorion i lywio canllawiau ar weithredu cyfyngiadau](#), [Egwyddorion i lywio canllawiau ar rybuddion](#)) mae ein rheolau'n galluogi'r canlynol:

- caniatáu cydymaith i ofyn am adolygiad o'u mesur terfynol
- cynnal rhagor o ymchwiliadau i ystyried y materion sy'n cael eu hadolygu ac i lywio ein penderfyniad ynghylch canlyniad yr adolygiad
- ystyried pa bryd y dylai mesurau terfynol ddod i rym os byddant yn cael eu cyflwyno yn ystod yr adolygiad
- rhoi gwybod i gymdeithion a thrydydd partïon perthnasol am ganlyniad ein hadolygiad.

## Beth mae'r rheolau'n ei gynnwys

### Cyfarwyddo'r adolygiad o fesur terfynol (rheol 56)

Wrth gyflwyno mesur terfynol o amodau neu ataliad dros dro, gall archwiliwr achos neu dribiwnlys gyfarwyddo y dylid adolygu'r mesur cyn iddo ddod i ben.

Gallwn hefyd gyfarwyddo adolygiad ar unrhyw adeg, os bydd cydymaith yn gofyn am hynny neu os byddwn yn dewis gwneud hynny o'n gwirfodd. Os byddwn yn gwrthod cais gan gydymaith i gynnal adolygiad, rhaid i ni roi gwybod iddo am y rhesymau dros wrthod.

### Atgyfeirio adolygiad (rheol 57)

Pan roddir cyfarwyddyd i gynnal adolygiad, gallwn naill ai ei gyfeirio at archwiliwr achos neu at dribiwnlys. Bydd cyfeirio at archwilydd achos yn golygu bod modd:

- cynnal adolygiadau'n gymesur heb fod angen gwrandawriad
- cyflwyno mesurau yn gynt lle bo angen hynny i ddiogelu'r cyhoedd
- dychwelyd yn gynt i ymarfer digyfyngiad pan nad oes amhariad ar addasrwydd y cydymaith i ymarfer mwyach.

Bydd yn dal modd i'r cydymaith ofyn am wrandawriad os byddai'n well ganddynt wneud hynny. Efallai y byddwn hefyd yn cyfeirio'r adolygiad yn uniongyrchol at dribiwnlys – er enghraifft, os oes pryder newydd sydd eisoes wedi cael ei gyfeirio neu os bydd archwilydd achos o'r farn y dylai dribiwnlys glywed yr adolygiad.

---

## Ystyried gwybodaeth gan archwilydd achos (rheol 58), Dim methiant i gydymffurfio â gofyniad mesur terfynol (rheol 59)

Bydd archwilydd achos yn ystyried y wybodaeth y byddwn yn ei darparu iddynt, ac unrhyw sylwadau a dderbynnir gan y cydymaith. Mewn amgylchiadau lle rhoddir cyfarwyddyd i gynnal adolygiad gan ein bod wedi cael tystiolaeth bod y cydymaith wedi methu â chydymffurfio â mesur sy'n bodoli eisoes, bydd yr archwilydd achos yn ystyried a yw'r cydymaith wedi methu â chydymffurfio mewn gwirionedd.

Os byddant yn penderfynu bod methiant i gydymffurfio, neu os ceir cyfarwyddyd i gael adolygiad am resymau eraill, bydd yr archwilydd achos yn mynd ymlaen i ystyried a oes amhariad yn parhau i fod ar y cydymaith ai peidio. Os ydynt yn gweld bod amhariad o hyd, byddant yn penderfynu a ddylid ymestyn y mesur presennol, amrywio mesur presennol o amodau, neu osod mesur gwahanol. Efallai y byddant hefyd yn penderfynu caniatáu i'r mesur presennol barhau os mai dyma'r cam mwyaf priodol.

Os bydd yr archwilydd achos yn penderfynu na fu methiant i gydymffurfio, rhaid iddynt ganiatáu i'r mesur presennol barhau, a rhaid i ni roi gwybod i'r cydymaith a thrydydd partion perthnasol am y penderfyniad hwn.

## Dim amhariad (rheol 60)

Pan fydd archwilydd achos yn penderfynu nad oes amhariad yn parhau i fod ar y cydymaith, rhaid iddo naill ai ddiddymu'r mesur presennol neu ganiatáu i'r mesur hwnnw ddod i ben.

Byddwn yn caniatáu i'r mesur ddod i ben pan oedd ei osod yn angenrheidiol er mwyn hybu hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. A byddwn yn rhoi gwybod i'r cydymaith am y rhesymau dros y penderfyniad ac yn rhoi gwybod i drydydd partion perthnasol beth yw'r penderfyniad.

## Y canlyniad arfaethedig ac ymateb y cydymaith (rheolau 61 - 62)

Mewn amgylchiadau lle mae archwilydd achos yn penderfynu bod amhariad yn parhau i fod ar addasrwydd y cydymaith i ymarfer ac o'r farn y dylid ymestyn, amrywio neu ddisodli'r mesur presennol â mesur gwahanol, bydd yr archwilydd achos yn cynnig canlyniad i'r cydymaith.

Bydd gan y cydymaith 21 diwrnod calendr i ymateb i ddweud a ydynt yn cytuno â thelerau'r canlyniad arfaethedig neu a ydynt yn gofyn am wrandawriad tribiwnlys. Os na fyddant yn ymateb, yna gall yr archwilydd achos gyflwyno'r canlyniad arfaethedig neu gall gyfeirio'r mater at dribiwnlys. Mae'r cyfnod sydd gan y cydymaith i ymateb yn fyrrach na'r amserlen ar gyfer canlyniadau a gynigir o dan y broses canlyniadau a dderbynnir oherwydd, yn gyffredinol, mae'r adolygiad yn ystyried materion presennol yn hytrach na phryderon newydd. Fodd bynnag, gall yr archwilydd achos ymestyn y cyfnod hwn lle bo'n briodol i wneud hynny.

Pan ddaw'r archwilydd achos ar draws gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r achos, mae'n bosibl y byddant yn diddymu'r telerau. Os tynnwyd yr achos yn ôl, gall yr archwilydd achos ailystyried yr achos a chymryd unrhyw un o'r camau a nodir yn y broses adolygu.

---

## Rhoi gwybod am ganlyniad yr adolygiad (rheol 63)

Rhaid i ni roi gwybod i gydymaith am ganlyniad penderfyniad adolygu o fewn pum diwrnod busnes, gan nodi'r canlynol:

- y rhesymau dros y penderfyniad
- gwybodaeth ynghylch pryd y daw'r mesur i rym
- a gafwyd cyfarwyddyd i gael adolygiad dilynol
- manylion ynghylch hawliau apelio.

Rhaid i ni hefyd roi gwybod i drydydd partion perthnasol am y penderfyniad.

## Pŵer i ofyn am ragor o wybodaeth (rheol 64)

Mae rheol 64 yn galluogi'r archwiliwr achos i ofyn am ragor o wybodaeth gennym ni pan fydd hynny'n berthnasol i'w hystyriaeth o'r adolygiad.

Pan fyddwn yn darparu rhagor o wybodaeth, rhaid i ni ddatgelu'r wybodaeth honno i'r cydymaith a rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

---

## **Darpariaethau sy'n ymwneud ag ystyried adolygiad gan dribiwnlys cymdeithion (rheol 66)**

Pan gyfeirir adolygiad at dribiwnlys i'w ystyried, mae'n bosibl y byddwn yn tynnu'r atgyfeiriad hwnnw'n ôl os yw'n briodol.

Gall hyn fod oherwydd bod gwybodaeth bellach wedi dod i law sydd angen ei hystyried neu oherwydd ei bod wedi dod yn bosibl i archwilydd gau'r achos drwy ganlyniad arfaethedig heb wrandawriad. Rhaid i ni roi gwybod i'r cydymaith am unrhyw benderfyniad i dynnu'n ôl a'r rhesymau dros wneud hynny.

Mae'r rheolau'n cynnig gweithdrefn y mae'n rhaid i'r tribiwnlys ei dilyn wrth ystyried adolygiad o fesur terfynol. I raddau helaeth, mae'r rhain yn adlewyrchu'r darpariaethau yn y rheolau sy'n ymwneud â'r dyfarniad. Yn ogystal, pan fo'r adolygiad yn ymwneud yn unig â methiant i gydymffurfio â mesur presennol, a bod y tribiwnlys yn penderfynu bod y cydymaith wedi cydymffurfio mewn gwirionedd, rhaid iddynt ganiatáu i'r mesur presennol barhau.

Fel gydag adolygiadau archwilydd achos, lle mae tribiwnlys yn penderfynu nad oes amhariad yn parhau i fod ar y cydymaith, rhaid iddynt naill ai ddiddymu'r mesur presennol neu ganiatáu i'r mesur hwnnw ddod i ben. Os ydynt yn credu bod amhariad ar y cydymaith o hyd, rhaid iddynt benderfynu a ydynt am ymestyn, amrywio neu ddisodli'r mesur presennol neu ganiatáu iddo barhau.

Yr archwiliwr achos fydd hefyd yn penderfynu a ddylai'r mesur ddod i rym pan ddaw'r mesur presennol i ben neu pan gyflwynir hysbysiad o'r penderfyniad. Gall y tribiwnlys hefyd gyfarwyddo bod y mesur yn dod i rym ar unwaith – os yw'n credu y byddai risg i ddiogelwch y cyhoedd pe na bai'n gwneud hynny.

## **Y weithdrefn ar gyfer adolygu mesur terfynol lle mae pryder newydd wedi'i fynegi (rheol 67)**

Pan gyfeirir pryder newydd am gydymaith sydd eisoes yn destun mesur terfynol o amodau neu ataliad i'w ystyried gan archwilydd achos neu dribiwnlys – mae'r rheolau'n cynnig y dylid cyfeirio'r adolygiad at yr un archwilydd achos neu dribiwnlys fel bod modd ystyried y materion gyda'i gilydd. Rhaid i'r archwiliwr achos neu'r tribiwnlys ystyried y pryder newydd yn gyntaf ac yna mynd ymlaen i adolygu'r mesur presennol, gan ystyried eu canfyddiadau ar y pryder newydd wrth benderfynu pa gamau y mae'n briodol i'w cymryd.

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

I raddau helaeth, mae ein dull gweithredu arfaethedig yn adlewyrchu ein dull presennol o adolygu mesurau terfynol ar gyfer meddygon o dan y Ddeddf Feddygol. Y prif wahaniaeth o dan y Ddeddf Feddygol yw bod yn rhaid i naill ai Dribiwnlys Ymarferwyr Meddygol neu Gadeirydd y Tribiwnlys gyflawni adolygiadau heb wrandawriad.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth i ni gynnal adolygiadau o fesurau terfynol ac rydym yn cynnig dirprwy'r penderfyniad hwn naill ai i archwilydd achos i gynnal adolygiadau neu i dribiwnlys i gynnal gwrandawriad.

Credwn y bydd hyn yn darparu mecanwaith mwy cymesur ar gyfer penderfynu ar adolygiadau o fesurau terfynol lle gall archwilydd achos ddatrys materion heb fod angen eu cyfeirio at dribiwnlys ar gyfer gwrandawriad. Fel sy'n wir ar gyfer meddygon ar hyn o bryd, bydd cymdeithion yn cadw'r hawl i ofyn am wrandawriad i ystyried eu hadolygiad, a fydd yn cael ei gynnal gan dribiwnlys.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer

**12** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer asesiad cychwynnol, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

**13** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y mesurau interim ac adolygiadau o fesurau interim, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

**14** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer canlyniadau a dderbynnir, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

**15** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o ddyfarnu, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

---

**16** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer adolygiadau mesur terfynol, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

**17** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer penderfyniadau canlyniadau a dderbynnir i'w gwneud gan un archwilydd achos, a ddewisir o blith tîm o archwilwyr achos? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

**18** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hegwyddorion arfaethedig ynghylch gwneud penderfyniadau ar gyfer canllawiau ar amhariadau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

**19** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hegwyddorion arfaethedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ganllawiau ynghylch pa gamau cyfyngol sydd eu hangen? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

**20** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hegwyddorion arfaethedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch canllawiau ar rybuddion? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

---

## Rhan 6 – Herio ein penderfyniadau

### Diwygiadau ac apeliadau

Dyma ein rôl gyda chymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol:

- adolygu penderfyniadau, lle bu gwall neu lle bu newid arwyddocaol yn yr amgylchiadau
- gweithredu proses apelio fewnol ar gyfer unigolion sy'n dymuno herio penderfyniadau rydym wedi'u gwneud.

### Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn ymgynghori ar y set ganlynol o reolau:

- [adolygiadau](#)
- [apeliadau](#).

Mae'r Gorchymyn yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer herio neu newid penderfyniadau penodol. Gall hyn ddigwydd o dan ddwy fath o weithdrefnau.

- O dan y weithdrefn gyntaf gallwn newid neu gywiro penderfyniad yn gyflym lle rydym yn cytuno ei fod yn anghywir neu lle bu newid sylweddol i'r amgylchiadau ers gwneud y penderfyniad. Yr enw ar y weithdrefn hon yw 'adolygiadau'.
- O dan yr ail weithdrefn, gall unigolyn herio penderfyniadau rydym wedi'u gwneud ar y sail eu bod yn anghywir neu'n anghyfiawn. Yr enw ar y weithdrefn hon yw 'apeliadau'.

---

## Adolygiadau

Gan edrych yn gyntaf ar adolygiadau, mae'r Gorchymyn yn rhoi pŵer newydd i'r GMC ddiwygio penderfyniadau. Mae'r Gorchymyn yn mynnu ein bod yn nodi yn y rheolau pa benderfyniadau y gellir eu hadolygu fel hyn.

Gellir defnyddio'r pŵer i adolygu pan fodlonir seiliau penodol – naill ai pan fydd:

- camgymeriad ffeithiol neu gyfreithiol
- newid sylweddol i'r amgylchiadau ers gwneud y penderfyniad.

Mae'r Gorchymyn yn nodi'r seiliau dros ddiwygio y mae'n rhaid eu bodloni ar gyfer gwahanol benderfyniadau. Er enghraifft, dim ond ar sail gwall ffeithiol neu gyfreithiol y gellir adolygu rhai penderfyniadau ynghylch addasrwydd i ymarfer.

Gallwn ddewis adolygu ein penderfyniad ein hunain, ar yr amod y bodlonir y seiliau hyn. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd rhai unigolion (fel y nodir yn y rheolau ar adolygiadau) hefyd yn gallu gofyn i ni adolygu penderfyniad penodol. Rydym yn darparu rhagor o fanylion am y penderfyniadau hyn isod – gweler *Ceisiadau i adolygu penderfyniadau penodol (rheol 6)*.

## Apeliadau

Mae'r Gorchymyn hefyd yn rhoi hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol ynghylch addasrwydd i ymarfer, cofrestru, dileu enwau oddi ar y gofrestr, ac ailymuno â'r gofrestr.

Ar gyfer y rhan fwyaf o benderfyniadau, bydd unigolion yn apelio i banel a gynhelir gan y GMC neu'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol, naill ai fel apêl ysgrifenedig neu drwy wrandawriad llafar pan ofynnir am hynny. Os gwrthodir caniatâd i apelio, neu os na chaiff yr apêl ei chadarnhau, mae hawl pellach gan unigolion i apelio i'r llysoedd yn dibynnu ar y penderfyniad y maent yn apelio yn ei erbyn.

Gellir apelio'n uniongyrchol i'r llysoedd yn erbyn rhai penderfyniadau ac nid oes angen gwneud apêl i banel mewnol yn gyntaf. Mae hyn yn berthnasol i rai penderfyniadau addasrwydd i ymarfer a wneir gan dribiwnlysoedd a phenderfyniadau i ddileu enwau oddi ar y gofrestr yn awtomatig.

Pan fydd rhywun yn apelio yn erbyn penderfyniad i'r GMC, byddwn yn ystyried a ddylai'r apêl honno fynd yn ei blaen – drwy roi caniatâd neu wrthod rhoi caniatâd. Ar y cam hwn, efallai y byddwn hefyd yn penderfynu y gallwn ddiwygio'r penderfyniad hwnnw heb fynd ymlaen i apêl lawn. Bydd hyn yn ein galluogi i fynd ati'n gyflymach i ddatrys penderfyniadau sy'n cael eu herio neu gywiro gwallau – lle bo hynny'n briodol. Pan roddir caniatâd i apelio, bydd yr apêl yn mynd yn ei blaen drwy ein proses apelio fewnol.


## Adolygiadau ac apeliadau

Mae'r tabl isod yn amlinellu pa benderfyniadau y gellir apelio yn eu herbyn a'r rhai y gellir eu hadolygu:

<b>Penderfyniad</b>	<b>I bwy y gellir apelio yn erbyn y penderfyniad yn y lle cyntaf?</b>	<b>A oes modd adolygu'r penderfyniad?</b>	<b>A oes modd apelio ymhellach yn erbyn y penderfyniad ac os felly, i bwy?</b>
I gofrestru ymgeisydd	Panel apêl mewnol y GMC	Oes	Oes - Llys Sirol neu lys cyfatebol
Ail-gofnodi enw ymgeisydd ar y gofrestr (ar ôl cael ei ddileu am resymau Addasrwydd i Ymarfer)	Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol	Nac oes	Nac oes
Ail-gofnodi enw ymgeisydd ar y gofrestr (ar ôl cael ei ddileu am resymau nad ydynt yn ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer)	Panel apêl mewnol y GMC	Oes	Oes - Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol
Dileu enw cydymaith oddi ar y gofrestr (nid yw'n cynnwys penderfyniadau i ddileu lle nodir bod y cydymaith wedi marw, penderfyniadau i ddileu sy'n ymwneud â gosod mesur terfynol, neu benderfyniadau dileu oherwydd euogfarn y cydymaith am drosedd a restrir yn y Gorchymyn)	Panel apêl mewnol y GMC	Oes	Oes - Llys Sirol neu lys cyfatebol
Dileu enw cydymaith oddi ar y gofrestr lle nodir bod y cydymaith wedi marw	Llys Sirol neu lys cyfatebol	Oes	Nac oes
Dileu enw cydymaith oddi ar y gofrestr am eu bod wedi'u cael yn euog o drosedd a restrwyd yn y Gorchymyn	Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol	Oes	Nac oes
Penderfyniad i gyfeirio neu beidio â chyfeirio pryder at archwilydd achos yn dilyn asesiad cychwynnol	Nid yw'r Gorchymyn yn darparu hawl i apelio	Oes	Nid yw'r Gorchymyn yn darparu hawl i apelio
Penderfyniad yr archwilydd achos i beidio â chymryd camau pellach, i roi rhybudd i'r cydymaith neu i osod mesur terfynol ar y cydymaith gan gynnwys nodi am	Panel apêl mewnol y GMC	Oes	Oes - Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol

ba hyd y bydd mesur terfynol yn parhau mewn grym			
Penderfyniad tribiwnlys i beidio â chymryd camau pellach, rhoi rhybudd i'r cydymaith neu osod mesur terfynol ar y cydymaith	Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol	Nac oes	Nac oes
Penderfyniad tribiwnlys i osod mesur interim ar y cydymaith ac i bennu am ba hyd y bydd yn parhau mewn grym	Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol	Nac oes	Nac oes
Penderfyniad archwilydd achos i ymestyn, amrywio neu ddirymu mesur interim presennol	Panel apeliadau mewnol y GMC	Nac oes	Oes - Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol
Penderfyniad tribiwnlys i ymestyn, amrywio neu ddirymu mesur interim presennol	Panel apêl y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol	Nac oes	Oes - Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol
Penderfyniad archwilydd achos i ymestyn, amrywio neu ddirymu mesur terfynol presennol	Panel apeliadau mewnol y GMC	Nac oes	Oes - Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol
Penderfyniad tribiwnlys i ymestyn, amrywio neu ddirymu mesur terfynol presennol	Panel apêl y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol	Nac oes	Oes - Yr Uchel Lys neu lys cyfatebol

Mae'r siart llif isod yn rhoi crynodeb o'r ffordd y bydd y ddwy broses hyn yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd.



---

Cyn adolygu ein rheolau arfaethedig, sydd i'w gweld drwy glicio ar y dolenni ar ddechrau'r adran hon, rydym yn eich annog i ddarllen rhan 6 y ddogfen ymgynghori yn gyntaf, sy'n rhoi rhagor o fanylion am bwrpas a chwmpas y dogfennau hyn.

## Rheolau adolygiadau

### Penderfyniadau y gellir eu hadolygu (rheol 4)

Rydym wedi nodi yn rheol 4 y penderfyniadau sy'n gymwys i'w hadolygu.

Nid ydym yn cynnwys penderfyniadau a wneir gan driwlysoedd yn y rhestr o benderfyniadau y gellir eu hadolygu. Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol ar wahân yn weithredol i'r GMC, ac rydym o'r farn mai'r llwybr herio priodol ar gyfer penderfyniad tribiwnlys yw i'r llys ar apêl.

Rydym hefyd wedi eithrio penderfyniadau addysg ar y sail bod penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy broses gydweithredol y maes hwn – gan roi nifer o gyfleoedd i ddarparwyr addysg gyflwyno tystiolaeth a gwneud sylwadau cyn dod i benderfyniad terfynol. Mae ein pwerau addysg eisoes yn golygu bod modd adolygu penderfyniadau cymeradwyo, er enghraifft, drwy gyfyngu ar y gymeradwyaeth rydym wedi'i rhoi neu ei thynnu'n ôl. Gall darparwyr hefyd gyflwyno cais newydd os yw'r amgylchiadau wedi newid.

### Amserlenni (rheol 4)

Mae Rheol 4 hefyd yn nodi'r cyfnod y mae'n rhaid i ni dderbyn cais oddi mewn iddo i adolygu penderfyniad. Yn yr un modd, pan fyddwn yn ystyried adolygu penderfyniad o'n gwirfodd, rhaid i ni hefyd ddechrau'r broses honno o fewn yr un cyfnod.

- Byddwn yn ystyried adolygu penderfyniad i ddileu enw cydymaith cyswllt oddi ar y gofrestr os gwnaed y penderfyniad hwnnw lai na thri mis ymlaen llaw.
- Mae hyn yn debyg i'n rheolau ar gyfer ailymuno â'r gofrestr, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ychwanegol i ddangos eu bod yn bodloni safonau cofrestru pan fyddant wedi bod oddi ar y gofrestr am fwy na thri mis.

Yn y ddau amgylchiad a restrir uchod – byddai'n fwy priodol i'r cydymaith wneud cais i ailymuno â'r gofrestr yn lle hynny.

- Ar gyfer penderfyniadau a wneir gan archwilwyr achos i gau achos addasrwydd i ymarfer, naill ai gyda rhybudd neu heb unrhyw gamau pellach – neu lle maent wedi gosod mesur terfynol o amodau, atal dros dro ar y cydymaith neu dynnu eu henwau oddi ar y gofrestr dros dro – y terfyn amser ar gyfer dechrau ystyried (a ddylid adolygu) yw tri mis hefyd.

---

Y rheswm am hyn yw nad ydym yn credu ei bod yn briodol nac yn deg cael cyfnod hirach o ansicrwydd ynghylch canlyniad y broses addasrwydd i ymarfer. Ar ben hynny, dim ond ar y sail bod gwall ffeithiol neu gyfreithiol wedi digwydd y gellir adolygu penderfyniadau o'r fath – a fyddai eisoes wedi digwydd erbyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

- Ar gyfer pob penderfyniad arall sy'n gymwys i gael ei adolygu – byddwn ond yn ystyried adolygiadau o fewn 12 mis i wneud y penderfyniad.

Ar gyfer penderfyniadau ynghylch cofrestru ac ailymuno â'r gofrestr – mae 12 mis yn adlewyrchu'r cyfnod pan na fydd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a ddarparwyd yn y cais gwreiddiol yn parhau i fod yn ddilys – felly bydd yn haws i'r ymgeisydd ailymgeisio yn lle hynny.

Ar gyfer penderfyniadau asesu cychwynnol o ran addasrwydd i ymarfer, mae terfyn amser o 12 mis yn cydbwysu'r canlynol:

- digon o amser i ddarparu gwybodaeth newydd a allai awgrymu bod gwall ffeithiol wedi'i wneud
- digon o amser i ystyried unrhyw newidiadau perthnasol i'r amgylchiadau
- bod yn deg â'r unigolyn cofrestredig.

## Sail dros adolygu (rheol 5)

Mae rheol 5 yn cadarnhau pa seiliau y gellir eu defnyddio i adolygu'r penderfyniadau a nodir yn rheol 4.

## Adolygu penderfyniadau (rheol 6)

Mae Rheol 6 yn egluro'r broses ar gyfer adolygu penderfyniad, y camau gweithredu a allai ddilyn, a'r ffynonellau gwybodaeth y byddwn yn eu defnyddio i lywio ein hystyriaethau.

Pan fyddwn yn dewis adolygu penderfyniad, daw'r adolygiad i rym pan fydd yr unigolyn (y mae'r penderfyniad yn ymwneud â nhw) yn cael eu hysbysu o'n penderfyniad.

Os byddwn yn penderfynu, yn dilyn adolygiad, na ddylid bod wedi cymryd cam penodol – er enghraifft, gosod mesur addasrwydd i ymarfer neu dynnu unigolyn oddi ar y gofrestr am nad ydynt yn addas i ymarfer – byddwn yn dileu unrhyw gyfeiriad at y cam hwnnw.

Er enghraifft, ni fyddai'r mesur addasrwydd i ymarfer yn ymddangos mwyach yn hanes addasrwydd i ymarfer y cydymaith. Fodd bynnag, ni ellir mynd ati'n ôl-weithredol i newid unrhyw fwlch yn hanes cofrestru person oherwydd y weithred hon ac felly byddai'n parhau yno.

## Ceisiadau i adolygu penderfyniadau penodol (rheol 7)

Mae tri llwybr y gallwn eu defnyddio i ystyried adolygiad:

- fel rhan o apêl

- 
- ar gyfer rhai penderfyniadau, a nodir yn y rheolau, pan fyddwn yn cael cais i adolygu'r penderfyniad hwnnw
  - lle nad ydym wedi derbyn cais neu apêl – ond yn penderfynu adolygu ein penderfyniad ein hunain.

Mae rheol 7 yn cadarnhau y gellir gwneud cais ffurfiol i adolygu'r penderfyniadau canlynol (penderfyniadau un, dau, tri a phedwar).

- Penderfyniad un – dileu enw oddi ar y gofrestr am euogfarn o drosedd a restrir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn
- Penderfyniad dau – dileu enw oddi ar y gofrestr am beidio â thalu ffi
- Penderfyniad tri – cyfeirio, neu beidio â chyfeirio, cwyn at archwiliwr achos
- Penderfyniad pedwar – archwilydd achos i'r gau achos heb unrhyw gamau pellach neu gyda rhybudd neu osod mesur terfynol o amodau, atal dros dro neu ddileu enw oddi ar y gofrestr.

Ar gyfer y ddau benderfyniad cyntaf a restrir (penderfyniadau un a dau), sy'n ymwneud â thynnu enw oddi ar y gofrestr, gall y cydymaith y dilëwyd eu henw oddi ar y gofrestr ofyn am adolygiad.

Ar gyfer y ddau benderfyniad diwethaf a restrir (penderfyniadau tri a phedwar), sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer, gall y cydymaith sy'n destun y penderfyniad hwnnw, neu berson rydym wedi penderfynu bod ganddynt fuddiant yn y penderfyniad hwnnw, wneud cais am adolygiad. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys achwynydd, person arall sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw neu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Mae rheol 7 hefyd yn cynnig y gallai fod angen talu ffi wrth wneud cais am adolygiad, ond byddai hyn yn berthnasol i benderfyniadau un a dau yn unig – ac felly'r cydymaith fyddai'n talu'r ffi.

## **Sylwadau (rheol 8), Ymholiadau a gwybodaeth bellach (rheol 9)**

Yn dibynnu ar natur y penderfyniad sy'n cael ei adolygu, mae Rheolau 8–9 yn cynnig y gallwn wneud ymholiadau pellach a gofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen i lywio ein hystyriaeth.

Mae'r rheolau hefyd yn cynnig y gallwn wahodd sylwadau ysgrifenedig gan y person y mae'r penderfyniad yn ymwneud â nhw.

Os na fyddwn yn cael unrhyw sylwadau, neu os na fyddwn yn cael y wybodaeth ychwanegol roeddem wedi gofyn amdani fel rhan o'n hymholiadau, mae ein rheolau hefyd yn ei nodi'n glir ei bod yn dal yn bosibl i ni adolygu'r penderfyniad.

## **Hysbysiadau (rheol 10)**

Pan fyddwn yn adolygu penderfyniad, byddwn yn rhoi gwybod i gymdeithion am ein penderfyniad o fewn pum diwrnod busnes ar ôl gwneud hynny. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n destun y penderfyniad, ynghyd ag unrhyw un a gafodd wybod am y penderfyniad

---

gwreiddiol pan gafodd ei wneud.

Os nad yw'r person sy'n destun y penderfyniad yn dymuno derbyn yr adolygiad, mae'n bosibl y gallant apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw o fewn 28 diwrnod. Caniateir i'r person wneud hyn os rhestrir y penderfyniad gwreiddiol sy'n cael ei adolygu fel un y gellir apelio yn ei erbyn yn y Gorchymyn (gweler yr adran apeliadau isod).

---

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

Dan ein fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer meddygon, gallwn adolygu rhai penderfyniadau. Cyfeirir at hyn fel ein proses rheol 12. Mae hyn yn caniatáu i unigolion cofrestredig, achwynwyr a phartïon sydd â diddordeb i ofyn am adolygu penderfyniadau asesiad cychwynnol a phenderfyniadau archwilwyr achos i gau achos, cyhoeddi rhybudd neu gytuno ar ymgymeriadau (sy'n debyg i amodau) heb eu cyfeirio at dribiwnlys.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn caniatáu i ni adolygu'r penderfyniadau hyn ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol – er, yn yr achos hwn, gallwn hefyd adolygu penderfyniadau'r archwilydd achos i osod ystod ehangach o fesurau (y tu hwnt i gytuno ar amodau).

Fodd bynnag, mae'r sail dros adolygu penderfyniad o dan y Gorchymyn, a nodir yn rheol 5, yn wahanol i'n sail bresennol ar gyfer ein proses rheol 12, sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- mae diffyg sylweddol yn y penderfyniad
- mae yna wybodaeth newydd a allai fod wedi arwain at ganlyniad gwahanol
- mae adolygiad yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd, er mwyn atal anghyfiawnder i'r meddyg, neu mae'n angenrheidiol er budd y cyhoedd.

O dan ein rheolau presennol, dwy flynedd yw'r terfyn amser ar gyfer ystyried ceisiadau rheol 12. Mae ein dull gweithredu arfaethedig yn y rheolau hyn yn cyfyngu hyn i 12 mis ar gyfer penderfyniadau asesiad cychwynnol, a thri mis ar gyfer penderfyniadau archwilwyr achos.

Yn ogystal â galluogi unigolion cofrestredig i herio penderfyniad, mae'r mecanwaith adolygu'n darparu mecanwaith pwysig i achwynwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb herio ein penderfyniadau pan fydd pryderon yn codi ynghylch diogelu'r cyhoedd. Mae'n hanfodol felly ein bod yn cynnal hyn ar gyfer pryderon sy'n ymwneud â chymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.

Nid oes gennym bwerau penodol i adolygu rhai penderfyniadau ar hyn o bryd, ond bydd y Gorchymyn yn rhoi'r pwerau hynny i ni ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â chofrestru a dileu enwau oddi ar y gofrestr. Felly, mae'r pŵer i adolygu yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i newid neu wneud penderfyniad newydd mewn achosion o'r fath a chyflymu'r broses apelio er mwyn sicrhau canlyniad cyflymach i'r apelydd.

---

## Apeliadau

### Beth yw cynnwys ein rheolau apelio

Mae'r Gorchymyn yn caniatáu i gymheiriaid apelio yn erbyn penderfyniadau penodol ynghylch cofrestru ac addasrwydd i ymarfer. Nid yw'r Gorchymyn yn rhoi unrhyw hawliau apelio ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoleiddio addysg a hyfforddiant.

Nodir y penderfyniadau y gellir apelio yn eu herbyn o dan erthyglau 16 a 17 y Gorchymyn. Mae ein rheolau'n nodi'r broses ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau o dan erthygl 16 i baneli apelio mewnol sy'n cael eu rhedeg gan y GMC a'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol – nid ydynt yn cynnwys apeliadau i'r llysoedd.

Mae'r rheolau'n nodi mai panel apêl y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol fydd yn ymdrin ag apêl yn erbyn penderfyniad a wneir gan driwlynlys. Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i gydymaith apelio i banel apeliadau mewnol yn erbyn unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud ag adolygiad mesur terfynol neu interim, yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r llysoedd. Bydd sicrhau mai panel apêl y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol fydd yn ymdrin â'r apeliadau hyn yn cynnal y rhaniad gweithredol rhwng y Gwasanaeth a'r GMC.

### Hysbysiad o apêl (rheol 3), Caniatâd i apelio (rheol 4)

Mae rheol 3 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu fel rhan o'r hysbysiad o apêl. Rhaid i'r GMC dderbyn hyn o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

Ar gyfer penderfyniadau y gellir apelio yn eu herbyn i banel apeliadau'r GMC, ar ôl derbyn yr hysbysiad o apêl, byddwn yn penderfynu o fewn 28 diwrnod a ddylid rhoi caniatâd i'r apêl fynd yn ei blaen.

- Os byddwn yn penderfynu yn ystod y cyfnod hwn y gellir adolygu'r penderfyniad, byddwn yn bwrw ymlaen â'r broses adolygu a bydd yr apêl yn dod i ben.
- Os nad yw'r penderfyniad yn gymwys i gael ei adolygu neu os byddwn yn penderfynu peidio ag adolygu'r penderfyniad—ar yr amod bod posibilrwydd gwirioneddol y bydd yr apêl yn llwyddo (er enghraifft, y darparwyd rhesymau clir ynghylch pam y gallai'r penderfyniad fod yn anghywir neu'n anghyfiawn), byddwn yn rhoi caniatâd i fwrw ymlaen â'r apêl fewnol.

Ar ôl rhoi caniatâd i fwrw ymlaen â'r apêl, os daw gwybodaeth newydd i'r fei wedi hynny sy'n awgrymu y gellir adolygu'r penderfyniad, byddwn yn ei adolygu drwy'r broses a ddisgrifir uchod yn yr adran adolygiadau. Yn yr achos hwn, byddai'r apêl yn dod i ben.

Wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlys, rhaid i berson â chymwysterau cyfreithiol a benodir gan y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol ystyried y canlynol:

- a gynhaliwyd y gwrandawriad yn absenoldeb y cydymaith ac, os mai felly y bu, a oes tystiolaeth newydd gref ei bod yn anghyfiawn i'r gwrandawriad wneud hynny
- os oes unrhyw amgylchiadau eithriadol eraill lle mae angen rhoi caniatâd.

---

Os cymerodd y cydymaith ran yn eu gwrandawriad, rydym o'r farn eu bod eisoes wedi elwa o gael gwrandawriad tribiwnlys yn eu hachos ac felly, oni bai fod amgylchiadau eithriadol, mai'r llysoedd sydd yn y sefyllfa orau i ystyried natur eu hapêl yn hytrach na phanel apêl y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Yn yr achos hwn, mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd a byddai'r apêl yn dod i ben.

## Apeliadau (rheol 5)

Mae rheol 5 yn cynnig y dylid cyfyngu ffocws yr apêl i adolygu a oedd y penderfyniad yn anghywir neu'n anghyfiawn. Ar gyfer y penderfyniadau a nodir yn rheol 5 (3), rydym yn cynnig y dylid cyfyngu ffocws yr apêl i ystyried ffactorau penodol eraill.

Er enghraifft, ar gyfer y penderfyniadau hynny lle mae'r cydymaith wedi naill ai:

- cytuno i osod mesur terfynol (fel rhan o'r broses canlyniadau a dderbynnir)
- cytuno ar gynni i amrywio neu ymestyn mesur interim neu derfynol presennol fel rhan o'r broses adolygu
- heb ddarparu ymateb rhesymegol a bod mesur terfynol wedi'i osod ar eu cofrestrriad

ni fydd yr apêl ond yn ystyried:

- o dan ba amgylchiadau y cytunodd y cydymaith i delerau'r canlyniad arfaethedig (gweler yr adran canlyniadau a dderbynnir yn Rhan 5)
- pam y penderfynom na roddodd y cydymaith ymateb rhesymegol i delerau'r canlyniad arfaethedig o fewn y terfyn amser gofynnol.

## Tynnu apêl yn ôl (rheol 6)

Mae rheol 6 yn cynnig y gall person dynnu ei apêl yn ôl ar unrhyw gam o'r broses. Fodd bynnag, pan fydd apelydd yn dewis gwneud hyn, ni chaniateir iddynt apelio eildro yn erbyn yr un penderfyniad. Os tynnir yr apêl yn ôl, bydd yr apelydd hefyd yn ildio unrhyw hawl pellach i apelio i'r llysoedd.

Gallwn oedi neu ohirio gwrandawriad apêl os oes gan yr apelydd reswm da neu os nad yw'n gyfiawn nac yn deg bwrw ymlaen. Mewn achosion o'r fath, ni fyddai angen i'r apelydd dynnu eu hapêl yn ôl.

---

## **Rheoli achosion apêl (rheol 7), Methiant i gydymffurfio â rheolau neu gyfarwyddiadau (rheol 8), Oedi (rheol 9), Gohirio (rheol 10)**

Mae Rheolau 7–10 yn disgrifio sut y byddwn yn rheoli'r broses apelio, gan gynnwys rheoli achosion apêl a chyhoeddi cyfarwyddiadau rheoli achosion safonol, gyda'r gallu i gynnal cyfarfod rheoli achos os oes angen. Maent hefyd yn nodi'r amgylchiadau lle byddwn yn oedi neu'n gohirio gwrandawriad panel.

Mae'r rheolau hyn hefyd yn nodi'r broses ar gyfer gwahodd sylwadau gan y partïon, a'r goblygiadau os bydd parti'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion a nodwyd gennym mewn rheolau neu gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gennym fel rhan o'r broses hon.

Os na chydymffurfir â'r gofynion yn y rheolau neu'r cyfarwyddiadau rheoli achos, gallai'r panel ddod i gasgliadau anffafriol (sef casgliad sy'n seiliedig ar fethiant unigolyn i wneud rhywbeth) neu gallent wrthod derbyn tystiolaeth lle bo'n rheolau neu'n cyfarwyddiadau'n ymwneud â'r dystiolaeth honno.

## **Tystiolaeth (rheol 11), Apeliadau ysgrifenedig (rheol 12), Apeliadau ar lafar (rheol 13), Tystion (rheol 14), Gweithdrefn mewn gwrandawriad apêl ar lafar (rheol 15)**

Mae rheolau 11-15 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth y bydd y panel apêl yn ei derbyn a sut:

- y bydd apeliadau ysgrifenedig a llafar yn gweithredu
- y ceisir cyflwyniadau
- y caiff gwybodaeth ei datgelu
- y bydd apelyddion a phartïon â diddordeb yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses (drwy hysbysiadau).

Fel y nodir yn Rheol 11, caiff tystiolaeth ei derbyn fel arfer os yw'r panel apêl o'r farn ei bod yn deg ac yn berthnasol i'r achos sydd ger eu bron.

Mae'r rheolau'n caniatáu cyflwyno apeliadau'n ysgrifenedig, oni bai fod yr apelydd yn gofyn am wrandawriad ar lafar.

Mae'r rheolau hefyd yn caniatáu i'r apelydd alw ar dystion i roi tystiolaeth yn y gwrandawriad llafar – ar yr amod bod y dystiolaeth yn ymwneud â'r materion yr apelir yn eu cylch.

## **Cynrychiolaeth mewn gwrandawriad apêl llafar (rheol 16)**

Mae rheol 16 yn cynnig y gall cyfreithiwr, cwnsler cyfreithiol, neu unigolyn addas arall gynrychioli'r apelydd mewn gwrandawriad apêl llafar.

---

## Panel apêl (rheol 22)

Mae rheol 22 yn disgrifio aelodaeth arfaethedig paneli apêl. Bydd pob panel apêl yn cynnwys tri pherson.

Ar gyfer penderfyniadau addasrwydd i ymarfer, mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i baneli apêl gynnwys o leiaf un unigolyn sydd naill ai:

- yn arfer bod wedi'u cofrestru fel cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol
- sydd â chymhwyster cymeradwy sy'n eu gwneud yn addas i gael eu cofrestru fel cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol
- yn aelod cofrestredig ar hyn o bryd (fel meddyg, cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol).

ac un aelod llewg nad yw'n bodloni unrhyw un o'r gofynion hyn.

Bydd holl aelodau'r panel apêl yn cael yr un hyfforddiant ac arweiniad i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd effeithiol a theg.

Ar gyfer paneli apêl y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol, mae Rheol 22 yn nodi na chaiff person eistedd ar banel apêl lle mae'r person hwnnw wedi eistedd yn flaenorol ar dribiwnlys yn delio â mesur interim neu derfynol yn yr un achos.

## Penderfyniadau'r panel (rheol 18)

Mae rheol 18 yn cynnig y caiff penderfyniadau panel apêl eu gwneud gan fwyafrif syml.

Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, byddwn yn rhoi gwybod i'r apelydd am benderfyniad y Panel ar ei apêl gan nodi'r rhesymau—a'u hawl i apelio i'r llys lle bo hynny'n berthnasol.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r apelydd o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl i'r panel apêl roi gwybod i ni am ei benderfyniad ac yn rhoi gwybod iddynt y gallant apelio yn erbyn y penderfyniad i'r llysoedd – lle bo'n gymwys i wneud hynny.

Pan fydd apelydd yn penderfynu apelio i'r llysoedd yn erbyn penderfyniad panel apêl y GMC, gallwn ddewis adolygu'r penderfyniad hwnnw – ar yr amod ei fod yn gymwys i'w adolygu ac yn bodloni'r seiliau a nodir yn y Gorchymyn. Yn yr achos hwn, byddai'r apêl bellach i'r llysoedd yn dod i ben.

---

## Sut mae ein cynigion yn cymharu â'n dull gweithredu presennol ar gyfer meddygon

O dan y Ddeddf Feddygol, gellir apelio i banel apêl mewnol y GMC yn erbyn rhai penderfyniadau sy'n ymwneud â chofrestru, dileu enw oddi ar y gofrestr ac ailymuno â'r gofrestr, ac mae modd apelio'n uniongyrchol i'r llysoedd yn erbyn penderfyniadau Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio ar hyn o bryd pan fyddwn yn penderfynu peidio â rhoi meddyg yn ôl ar y gofrestr.

O dan y Ddeddf Feddygol, mae'n rhaid i apelyddion apelio i baneli apêl mewnol o fewn 28 diwrnod. Fodd bynnag, er nad oes gofyniad deddfwriaethol i geisio caniatâd i fwrw ymlaen â'r apêl yn y lle cyntaf, mae gennym y pŵer i wrthod apeliadau annheilwng.

O dan y Gorchymyn, gellir apelio i banel apeliadau mewnol yn erbyn ystod ehangach o benderfyniadau, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chanlyniadau a dderbynnir. Nawr, rhaid i apelwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn eu penderfyniad geisio caniatâd i fwrw ymlaen â'u hapêl. Ac fel y nodwyd uchod, pan fydd person yn apelio yn erbyn penderfyniad i'r GMC, mae gennym bellach y pŵer i adolygu'r penderfyniad hwnnw heb fod angen symud ymlaen i apêl lawn. Bydd hyn yn ein galluogi i fynd ati'n gyflymach i ddatrys penderfyniadau sy'n cael eu herio neu gywiro gwallau – lle bo hynny'n briodol.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad – Adolygiadau ac Apeliadau

**21** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o adolygu, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

**22** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd arfaethedig tuag at apeliadau mewnol, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

---

## Rhan 7 – Ffioedd

### Ffioedd

Dyma ein rôl gyda chymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol:

- datblygu fframwaith ar gyfer pennu a chodi ffioedd ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau – a fydd yn cynnwys ein hagwedd tuag at addasiadau, ad-daliadau, ac eithriadau i godi tâl lle bo hynny'n briodol.

### Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn ymgynghori ynghylch y set ganlynol o reolau:

- [rheolau ffioedd](#).

Cyn adolygu ein rheolau arfaethedig, sydd i'w gweld drwy glicio ar y dolenni uchod, rydym yn eich annog i ddarllen rhan 7 y ddogfen ymgynghori yn gyntaf, sy'n rhoi rhagor o fanylion am eu pwrpas a'u cwmpas.

I ategu ein rheolau, byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau pellach maes o law ar yr amgylchiadau lle byddwn yn addasu, yn hepgor neu'n ad-dalu ffioedd.

### Ein trefniant cyllido presennol ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol

Pan fydd rheoleiddio'n dechrau, rydym yn rhagweld na fydd yr incwm a gynhyrchir o ffioedd a delir gan gymdeithion yn ddigon i dalu am gost rheoleiddio'r proffesiynau hynny, oherwydd na fydd digon ohonynt i wneud hynny i ddechrau. Mae gennym gytundeb cyllido gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n darparu cymhorthdal parhaus hyd nes y byddwn yn rhagweld y bydd ffioedd a delir gan gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn ddigon i dalu costau eu rheoleiddio'n llawn.

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n talu'r costau datblygu sy'n gysylltiedig â dechrau rheoleiddio cymdeithion.

### Beth yw cynnwys y rheolau?

Nid yw'r rheolau'n nodi'r ffioedd unigol y byddwn yn eu codi, ond maent yn nodi'r egwyddorion

---

arfaethedig a fydd yn llywio ein dull o benderfynu ar ffioedd. Ar ôl i ni gwblhau ein rheolau'n derfynol ar ôl yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyhoeddi atodlen ffioedd ar ein gwefan, sy'n seiliedig ar yr egwyddorion hyn.

Nodir ein hegwyddorion ar gyfer pennu ffioedd yn rheol 4. Wrth ddatblygu'r rheolau hyn a lefel y ffi flynyddol, ein hegwyddor ariannol gyffredinol yw y dylai cymdeithion a meddygon dalu am gost rheoleiddio eu hunain, felly disgwylir i ffioedd cofrestru a ffioedd blynyddol a delir gan wahanol grwpiau cofrestredig amrywio.

Byddwn yn cyhoeddi atodlen ffioedd a fydd yn nodi natur a swm ein ffioedd a byddwn yn ei diweddarau bob blwyddyn. Pan fyddwn yn dewis amrywio'r ffioedd, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r egwyddorion yn rheol 4. Byddwn yn adrodd yn ein hadroddiad blynyddol ar effaith bosibl unrhyw newidiadau i ffioedd ar gymdeithion.

Bydd y mesurau hyn yn hyrwyddo tryloywder a sicrwydd ynghylch ein dull o bennu ffioedd, gan roi'r hyblygrwydd i ni ddiwygio ein ffioedd lle bo angen (er enghraifft, i ddarparu ar gyfer newidiadau i gost ein gweithgarwch).

Mae'r Gorchymyn yn mynnu ein bod yn pennu ein ffioedd gan sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw ein hincwm o ffioedd yn fwy na'n gwariant cyfartalog dros nifer o flynyddoedd. Ar gyfer y gofyniad hwn, gall ein gwariant hefyd gynnwys swm sydd wedi'i neilltuo i feithrin a chynnal ein cronfeydd wrth gefn—gan ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau fel elusen. Yr hyn y mae hyn yn ei olygu yw y gallai fod gwarged neu ddiffyg yn ein cyllideb gyffredinol mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Bydd yn pennu ein ffioedd gyda'r bwriad o wneud yn siŵr eu bod yn gallu talu'r gost o gyflawni ein swyddogaethau ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol. Pan fydd rhai cymdeithion yn ymwneud â swyddogaethau penodol – er enghraifft, ymgeiswyr tramor am gofrestrriad, byddwn yn codi ffi sy'n gysylltiedig â chost y broses unigol honno. Credwn y bydd hyn yn cynnig dull tecach i bawb.

Mae rheol 3 yn caniatáu i ni godi ffi ar sefydliadau addysg am gymeradwyaeth ac i sicrhau ansawdd, a'r unig gostau rydym yn bwriadu eu hadennill yw'r costau hynny sy'n deillio o sicrhau ansawdd unrhyw hyfforddiant i gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn y dyfodol sy'n digwydd dramor.

Mae rheol 6 yn caniatáu i ni ad-dalu, addasu, gohirio neu hepgor ffi. Fel y nodwyd uchod, byddwn yn cynhyrchu canllawiau ar wahân ar yr amgylchiadau lle byddwn yn gwneud hyn – ond fel enghraifft, a gan lynu wrth y dull gweithredu a ddefnyddir gennym ar hyn o bryd ar gyfer meddygon, rydym wedi darparu tair enghraifft isod.

- Os bydd cydymaith yn tynnu ei enw oddi ar y gofrestr yn wirfoddol, byddwn yn ad-dalu'r ffi flynyddol am y cyfnod nad oeddent wedi'u cofrestru.
- I gefnogi grwpiau penodol o unigolion cofrestredig, efallai y byddwn yn codi ffi ostyngol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cefnogi'r rheini sydd â statws ffoadur (er nad ydym wedi penderfynu'n derfynol ble a phryd y byddwn yn defnyddio'r eithriad hwn).
- Yn achos cydymaith sydd wedi cael ei atal o'r gofrestr yn dilyn mesur addasrwydd i ymarfer, gallwn ohirio bilio dros gyfnod y mesur hwnnw.

---

Mae rheol 7 yn nodi'r goblygiadau posibl am fethu â thalu ffi, a allai arwain at ddileu enw cydymaith oddi ar y gofrestr.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad – Ffioedd

**23** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd arfaethedig tuag at bennu a chodi ffioedd, fel y disgrifir yn ein rheolau? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb.

**24** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hegwyddorion arfaethedig ar gyfer pennu ac amrywio ffioedd yn y dyfodol? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb

---

## Rhan 8 – Ystyriaethau o ran cydraddoldeb a’n rhwymedigaethau o ran Safonau’r Gymraeg

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn mynnu ein bod yn ystyried goblygiadau ein cynigion i unigolion sy’n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Wrth ymgynghori ar ein rheolau, ein canllawiau a’n safonau arfaethedig ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol, mae’r ddyletswydd yn mynnu ein bod yn ystyried i ba raddau maent yn:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi’i wahardd gan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* neu oddi tani
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a’r rheini nad ydynt yn eu rhannu
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchoddedig a’r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

Rydym wedi nodi sut mae ein rheolau, ein canllawiau a’n safonau’n mynd i’r afael â’r ystyriaethau hyn – gan ganolbwyntio ar gymdeithion anesthesia, cymdeithion meddygol a’r cyhoedd – [mewn Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân](#).

Fel y nodwyd yn rhan 1 y ddogfen ymgynghori, byddwn yn ymgynghori eto ar weithrediad y rheolau, y canllawiau a’r safonau i feddygon pan gyflwynir deddfwriaeth newydd i ddisodli’r Ddeddf Feddygol. I gyd-fynd â’r ymgynghoriad hwnnw, byddwn yn datblygu asesiad ychwanegol o’r effaith ar gydraddoldeb a fydd yn ystyried effaith ychwanegol ein newidiadau arfaethedig ar feddygon sy’n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, am y tro, rydym wedi rhoi crynodeb cychwynol isod o’r effeithiau posibl ar y grŵp hwn, a byddwn yn ychwanegu at y rhain fel rhan o’n gwaith parhaus i gyflwyno diwygiadau cyfatebol ar gyfer meddygon.

Bydd llawer o effeithiau cadarnhaol ein rheolau a’n canllawiau ar gymdeithion anesthesia, cymdeithion meddygol a’r cyhoedd hefyd yn berthnasol i feddygon sy’n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Mae ein prosesau fel arfer yn effeithio’n anghymesur ar feddygon sydd wedi graddio dramor neu sy’n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae cyflwyno rheolau a chanllawiau newydd yn rhoi cyfle i ni fynd i’r afael â’u profiadau o wahaniaethu a darparu gwasanaethau rheoleiddio mwy teg a chynhwysol i bawb.

- Bydd ein cynnig i gyflwyno fframwaith cofrestru hyblyg sy’n seiliedig ar y fersiwn a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori hon ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol yn caniatáu dull mwy cyson o asesu graddedigion o’r DU, a’r rhai a raddiodd dramor, sy’n ceisio cofrestru. Bydd hefyd yn cefnogi gwaith ar draws y system i fynd i’r afael â chanlyniadau proffesiynol gwahaniaethol a’u dileu ar gyfer meddygon a raddiodd dramor a meddygon o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Bydd newidiadau i’n prosesau addasrwydd i ymarfer yn cynnig cyfleoedd i wella canlyniadau i feddygon sy’n rhannu nodweddion gwarchoddedig, sydd fel arfer yn cael eu gorgynrychioli mewn prosesau addasrwydd i ymarfer.

- 
- Er enghraifft, bydd asesiadau cychwynnol yn ein galluogi i ddefnyddio dull mwy cymesur i benderfynu pryd i ymchwilio – gan leihau’r straen a’r amser y mae cofrestrwyr yn ymwneud â’n prosesau, yn enwedig pan nad oes angen gweithredu.
  - Bydd cyflwyno prosesau fel canlyniadau a dderbynnir a rheoli achosion cyn-treial estynedig yn symleiddio prosesau sy’n gymhleth eu defnyddio – gan arwain at ganlyniadau gwell i feddygon sy’n llai tebygol o gael eu cynrychioli’n ffurfiol.
  - Ac er y bydd symleiddio’n prosesau addasrwydd i ymarfer drwy gyflwyno canlyniadau a dderbynnir yn arwain at foderneiddio a hyblygrwydd sydd wir eu hangen, mae’n hanfodol nad yw meddygon yn teimlo bod pwysau arnynt i dderbyn cynnig (yn enwedig lle nad ydynt yn cael eu cynrychioli). Meddygon a raddiodd dramor neu sy’n dod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yw’r rhai nad ydynt yn cael eu cynrychioli fel arfer. Byddem yn cynnig lliniaru hyn drwy egluro yn ein gohebiaeth â meddygon (fel rydym yn bwriadu ei wneud ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol) bod y broses yn gwbl wirfoddol a bod dewis gan y meddyg i wrthod y cynnig.

Bydd newidiadau yn y ffordd rydym yn cymeradwyo addysg a hyfforddiant meddygol hefyd yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar safonau cydraddoldeb mewn addysg a hyfforddiant meddygol, yn enwedig yn y sector israddedig lle bydd modd i ni gymeradwyo cyrsiau unigol yn hytrach na sefydliadau. Byddwn yn gallu sicrhau ansawdd ar lefel fanylach ac yn ystyried sut mae defnyddio ein dulliau rheoleiddio i fynd i’r afael â materion cydraddoldeb a allai godi, fel gwahaniaethu neu ddiwylliannau gwenwynig mewn amgylcheddau addysg, hyfforddiant neu waith.

Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd rhai newidiadau’n cael effaith negyddol, neu na allwn asesu rhai newidiadau eto. Er enghraifft, mae’n bwysig nad yw gofynion tystiolaeth ychwanegol a gyflwynir fel rhan o’n rheolau a’n canllawiau ailymuno’n cael effaith anghymesur ar feddygon sy’n cymryd seibiant yn eu hymarfer (fel y rheini sy’n cael absenoldeb mamolaeth neu seibiant oherwydd salwch, neu oherwydd cyfrifoldebau gofalu). Byddwn yn ceisio defnyddio ein canllawiau i liniaru effaith fel hyn, gan sicrhau bod ein penderfynwyr yn ystyried yr achosion hyn mewn ffordd deg a chymesur.

Wrth i ni ddatblygu ein rheolau, ein canllawiau a’n safonau ar gyfer meddygon ar ôl i ddeddfwriaeth bellach dderbyn cymeradwyaeth, byddwn yn gwneud rhagor o waith i ddeall effaith ein cynigion ar feddygon sy’n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Byddwn yn defnyddio ein data, ynghyd ag adborth a gesglir drwy ymgynghoriadau yn y dyfodol, i ddeall goblygiadau posibl ein cynigion, er mwyn mynd i’r afael ag unrhyw ystyriaethau a chyfleoedd o ran cydraddoldeb. Pan fyddwn yn nodi effeithiau negyddol posibl, byddwn yn diwygio ein cynigion i liniaru’r risg y bydd y rhain yn digwydd a phan fyddwn yn gweld cyfleoedd i fod yn fwy teg a chynhwysol, byddwn hefyd yn cynnwys y rhain yn ein cynigion i ddiwygio mewn perthynas â meddygon.

## Cwestiwn ymgynghori – Ystyriaethau cydraddoldeb

- 25** Gan gyfeirio at ein Hasesiad ar wahân o'r Effaith ar Gydraddoldeb, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ein bod wedi nodi'r holl effeithiau perthnasol (ar gyfer cymdeithion anesthesia, cymdeithion meddygol, a'r cyhoedd) ar gyfer ein rheolau / canllawiau / safonau arfaethedig fel y'u lluniwyd ar hyn o bryd? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb

## Y Gymraeg

Fel rheoleiddiwr ar gyfer gweithwyr meddygol proffesiynol ledled y DU, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein penderfyniadau yn ystyried yr effeithiau, os o gwbl, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae safonau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi ac ystyried effeithiau ein safbwyntiau polisi arfaethedig – fel y nodir yn ein rheolau, ein safonau a'n canllawiau – ar y defnydd o'r Gymraeg, a chyflwyno unrhyw fesurau sydd eu hangen i liniaru unrhyw ddylanwad negyddol yn ogystal â chryfhau unrhyw ddylanwad cadarnhaol.

Gan ddefnyddio'r ymatebion i'r cwestiynau isod, byddwn yn tynnu sylw at unrhyw effeithiau perthnasol, a'n hymateb arfaethedig i'r rhain, yn ein hadroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad – Y Gymraeg

- 26** Yn eich barn chi, a allai'r cynigion gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb

- 27** A ellid diwygio'r cynigion mewn unrhyw ffordd i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i helpu i beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? (Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod)

Rhowch reswm dros eich ateb

---

## Sut byddwn yn defnyddio eich ymateb

Byddwn yn ystyried yr ymatebion a gawn yn ofalus cyn llunio ein rheolau, ein safonau a'n canllawiau terfynol. Rydym wedi ymrwymo i werthuso effaith bosibl unrhyw newidiadau a wnawn ar bawb y gallai hyn effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys yr effaith y gallai ein cynigion ei chael ar grwpiau a warchodir o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*.

Byddwn yn dadansoddi ac yn ymateb i'r materion a godwyd yn unol â'n hegwyddorion ar gyfer cynnal dadansoddiad o'r ymgynghoriad. Mae'r rhain yn nodi ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gytbwys, yn gyson, yn ymatebol ac yn dryloyw.

Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer ymgynghori ar ein gwefan. Ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol sy'n datgelu pwy yw'r bobl dan sylw yn yr adroddiadau hyn ond efallai y byddwn yn cynnwys dyfyniadau dienw enghreifftiol o ymatebion i'r ymgynghoriad – oni bai eich bod yn gofyn i ni gadw eich ymateb yn gyfrinachol.

Byddwn yn prosesu eich data yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. [Mae ein polisi preifatrwydd a chwcis](#) yn egluro sut y caiff eich data ei ddefnyddio, sut bydd cwcis yn cael eu gosod, a sut mae eu rheoli neu eu dileu.

Mae'n bosibl y caiff eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei ddatgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n caniatáu i'r cyhoedd weld yr wybodaeth sydd gennym. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd eich ymateb ar gael i'r cyhoedd gan fod eithriadau sy'n ymwneud â gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol a gwybodaeth y mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data yn berthnasol iddi.

### Ydych chi'n fodlon i ni gyhoeddi dyfyniadau dienw o'ch ymateb?

- Ydw, byddwn yn fodlon i chi gyhoeddi dyfyniadau dienw o'm hymateb.
- Na ydw, byddai'n well gennyf pe baech yn trin fy ymateb yn gyfrinachol.

## Atodiad A – Geirfa

AA	Cydymaith Anesthesia.
AAPAO (y Gorchymyn)	Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024.
Dyfarniad	Y broses o benderfynu ar fater neu achos drwy restru a chynnal gwrandawriad tribiwnlys. Y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol sy'n cynnal gwrandawriadau tribiwnlys sy'n ymwneud â chymdeithion.
Y ffi flynyddol	Y ffi y mae unigolion sy'n cael eu rheoleiddio gan y GMC yn ei thalu bob blwyddyn i aros ar gofrestr y GMC.
Cymhwyster cydymaith anesthesia/cydymaith meddygol cymeradwy	Cymhwyster cydymaith anesthesia/cydymaith meddygol a gymeradwywyd gan y GMC fel cymhwyster sy'n bodloni'r safonau addysg a hyfforddiant sydd eu hangen at ddibenion cofrestru gyda'r GMC.
Cydymaith	Term torfol ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.
Archwiliwr Achos	Uwch benderfynwr a benodir gan y GMC i gyflawni'r swyddogaethau a bennir yn Erthyglau 10 a 13 y Gorchymyn mewn perthynas ag ystyried a oes amhariad ar addasrwydd cydymaith anesthesia neu gydymaith meddygol i ymarfer.
Rheolwyr Achos	Unigolyn a benodir gan y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol at ddibenion rheoli achosion a gyfeirir at Dribiwnlys Cymdeithion ar gyfer gwrandawriad. Mae rheoli achosion yn cynnwys rhoi cyfarwyddiadau ar baratoi achosion a phenderfynu ar faterion sy'n berthnasol i reoli achos yn gyfiawn ac yn ddi-oed, megis penderfynu ar ddadleuon cyfreithiol rhagarweiniol penodol a wneir gan barti yn yr achos a cheisiadau i ohirio.
Cymeradwyaeth amodol	Cymeradwyaeth gan y GMC i gwrs addysg a hyfforddiant cyn-gymhwysu cydymaith anesthesia/cydymaith meddygol, yn amodol ar fodloni amodau penodol, fel arfer o fewn cyfnod penodol.
Llys	Ystyr "Llys", ac eithrio'r term "llys sirol", yn achos person sydd â chyfeiriad cofrestredig, neu y byddai pe bai'n cael ei gofrestru (i) yn yr Alban, Llys y Sesiwn, (ii) yng Ngogledd Iwerddon, yr Uchel Lys Barn yng Ngogledd Iwerddon, a

	(b) mewn unrhyw achos arall, yr Uchel Lys Barn yng Nghymru a Lloegr.
Mesur terfynol	Cyfyngiad a osodir ar gofrestrriad cydymaith gan archwilydd achos neu dribiwnlys y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol lle cafwyd bod amhariad ar addasrwydd y cydymaith hwnnw i ymarfer.
Ymarfer meddygol da	Arfer meddygol da yw canllawiau craidd y GMC sy'n disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan bob meddyg/ cydymaith anesthesia/ cydymaith meddygol cofrestredig. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: <a href="https://www.gmc-uk.org/cy/professional-standards/professional-standards-for-doctors/good-medical-practice">https://www.gmc-uk.org/cy/professional-standards/professional-standards-for-doctors/good-medical-practice</a>
Mesur interim	Cyfyngiad dros dro y gellir ei osod ar gofrestrriad cydymaith os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd neu ei fod er budd y cyhoedd neu'r cydymaith mewn ffordd arall.
Deddf Feddygol	Deddf Feddygol 1983 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n llywodraethu'r ffordd y mae'r GMC yn rheoleiddio meddygon. Mae'n eistedd ochr yn ochr â'r Gorchymyn, a fydd yn rheoli'r gwaith o reoleiddio cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.
Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol	Gwasanaeth dyfarnu a sefydlwyd o dan y Ddeddf Feddygol i gynnal gwrandawriadau tribiwnlys. Mae'r Gwasanaeth yn gwneud penderfyniadau annibynnol, ac yn gweithredu ar wahân i rôl ymchwilio'r GMC.
PA	Cydymaith Meddygol
Panel	Gellir apelio i banel apeliadau mewnol y GMC yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan y GMC neu i banel apeliadau mewnol y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan dribiwnlysoedd y Gwasanaeth.
Y Gofrestr	Y rhestr o gymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol a gofrestrwyd i ymarfer yn y DU. Mae cofrestr ar wahân yn bodoli ar gyfer meddygon.
Cofrestrai	Cydymaith neu feddyg sydd wedi cofrestru gyda'r GMC.
Cofrestrydd	Unigolyn penodol, sy'n gweithio i'r rheoleiddiwr, sy'n gyfrifol am benderfyniad penodol (er enghraifft, a ddylid caniatáu cais i ailymuno â'r gofrestr ai peidio).

Sylwadau (gwneud sylwadau)	Y broses o ddarparu sylwadau ysgrifenedig neu lafar ynghylch penderfyniad arfaethedig.
Ailddilysu	Ailddilysu yw'r broses y mae'n ofynnol i feddygon ei defnyddio o bryd i'w gilydd i ddangos i'r GMC eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i ymarfer. Mae proses debyg yn cael ei datblygu ar gyfer cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol.
Rheolau	Mae'r rheolau'n disgrifio'r prosesau a'r gweithdrefnau gweithredol y bydd y GMC yn eu defnyddio i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag addysg, cofrestru, addasrwydd i ymarfer, diwygiadau i benderfyniadau ac apeliadau, a phennu a chodi ffioedd.
Swyddogaethau statudol	Swyddogaethau rheoleiddio'r GMC fel y nodir yn Neddf Feddygol 1983 a'r Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024.
Rheoleiddio statudol	Rheoleiddio proffesiwn yn unol â gofynion cyfreithiol (gan gynnwys o dan y Ddeddf Feddygol a'r Gorchymyn).
Tribiwnlys	Grŵp o dri a benodir gan y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol i wneud penderfyniadau, gydag aelodau'n cyd-fynd â'r rheolau a wnaed gan y GMC, i wneud penderfyniadau penodol pan godwyd cwestiynau ynghylch addasrwydd cydymaith i ymarfer.
Rhybudd	Ymateb rheoleiddiol ffurfiol lle nad oes amhariad ar addasrwydd cydymaith i ymarfer sy'n dangos bod unrhyw ymddygiad penodol neu berfformiad gwael yn gwyro'n glir ac yn benodol oddi wrth y safonau proffesiynol diwygiedig ac na ddylid ei ailadrodd.

E-bost: [gmc@gmc-uk.org](mailto:gmc@gmc-uk.org)

Wefan: [gmc-uk.org](http://gmc-uk.org)

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i

ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun.

Ymunwch â'r sgwrs

 [@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)

 [facebook.com/gmcuk](https://facebook.com/gmcuk)

 [linkd.in/gmcuk](https://linkd.in/gmcuk)

 [youtube.com/gmcuktv](https://youtube.com/gmcuktv)

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar [gmc@gmc-uk.org](mailto:gmc@gmc-uk.org).

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

Cyhoeddwyd Mawrth 2024

© 2024 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Cyngor Meddygol Cyffredinol dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/AAPAOOC2024/0324